

Adroddiad Blynyddol  
Cyfarwyddwr y  
Gwasanaethau  
Cymdeithasol 2015-16

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, a gellir ei darparu mewn fformatau eraill ar gais.

## Cyfeirio at ieithoedd

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, gofynnwch i rywun yr ydych yn eu hadnabod sydd yn siarad Cymraeg neu Saesneg ffonio 01824 706291. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome telephone calls in Welsh

If you need further information, please ask someone you know who speaks English or Welsh to telephone 01824 706291

Jeżeli potrzebują państwo dalszych informacji, proszę poprosić kogoś, kto mówi po angielsku lub walijsku żeby zadzwonił pod numer 01824 706291

اگر آپ کو مزید معلومات درکار ہوں تو براہ مہربانی انگریزی یا ویلش زبان جاننے والے کسی واقف کار سے کہیں کہ وہ آپ کی جانب سے فون نمبر 01824 70 6291 سے رابطہ کریں۔

আপনার যদি আরো তথ্যের প্রয়োজন হয়, তাহলে আপনার জানা ইংরেজী অথবা ওয়েলশ ভাষা বলতে পারেন এমন কাউকে অনুগ্রহ করে 01824 70 6291 নম্বরে টেলিফোন করতে বলুন

Se você precisar de nova informação, por favor pergunte alguém você sabe quem diz o galês o'r inglês para telefonar 01824 706291

إذا كنت بحاجة إلى مزيد من المعلومات ، يرجى الطلب من شخص ما تعرف من يتحدث الإنجليزية أو الويلزية الهاتف 01824706291

如果您需要更多信息，请向你认识的人谁讲英语或威尔士电话：01824706291

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol 2015-16 ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych. Diben yr adroddiad hwn yw amlinellu pa mor llwyddiannus yr ydym wedi darparu gwasanaethau cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf a beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer gwella yn 2016-17. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad manwl o ba mor effeithiol yw'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer oedolion, plant a theuluoedd yn Sir Ddinbych.

Yn ystod 2015/16, derbyniais rôl newydd fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, yn ogystal â pharhau â'm swydd fel Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gennyf frîff ehangach sy'n galluogi i mi hwyluso cymorth a chydweithrediad rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a meysydd eraill, yn cynnwys addysg a gwasanaethau cwsmeriaid. Yr wyf hefyd yn arweinydd corfforaethol ar gyfer trechu tlodi a hyrwyddo'r iaith Gymraeg, sydd eto'n cyd-fynd yn dda gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gydnabod ymadawiad Leighton Rees, Pennaeth ein Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a ymddeolodd yn ddiweddar o'r cyngor. Hoffwn ddiolch i Leighton am ei wasanaeth, ac am adael y cyngor mewn sefyllfa mor gryf. Mae gennym gyfle cyffrous yn awr i adeiladu ar y sefyllfa hon gyda'n Gwasanaethau Addysg a Phlant sydd wedi'u huno'n ddiweddar, ac sydd eisoes yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach rhwng y ddau faes allweddol hyn.

Yr wyf hefyd yn hapus iawn gyda'r cynnydd a wnaed gyda'n Gwasanaethau Cymorth Cymunedol newydd, sy'n ymgorffori Atebion Tai a Gofal Cymdeithasol Oedolion. Mae'r meysydd hyn yn cyd-fynd yn dda, ac rydym eisoes yn gweld buddiannau rheoli'r swyddogaethau hyn o fewn un gwasanaeth.

Fe wnaethom lawer yn ystod 2015/16 i baratoi ar gyfer cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac rwy'n arwain ein "Bwrdd Cyflwyno'r Ddeddf" i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â phob agwedd ar y Ddeddf mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio bod y Ddeddf, a'n hymateb ni iddi, yn cynnwys mwy na'r gwasanaethau cymdeithasol, ac yn cwmpasu cyfrifoldebau ehangach y cyngor ar hybu lles dinasyddion.

Yr wyf yn falch iawn hefyd o weld bod tîm canolog iechyd newydd wedi'i sefydlu yn ystod y flwyddyn (sy'n cwmpasu Sir Ddinbych a Chonwy). Rwy'n edrych ymlaen at y cyfleoedd y mae cydweithio agosach eisoes yn ei ddarparu ac, er mai dyddiau cynnar yw hi o hyd, mae'r dyfodol yn nhermau cydweithio agosach gyda'r maes iechyd yn edrych yn addawol iawn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bob un o'n staff a'n partneriaid am eu gwaith caled parhaus, eu penderfyniad a'u proffesiynoldeb. Mae hyn yn ymdrech tîm gwirioneddol, a gyda'n gilydd rydym yn gwneud gwahaniaeth.



Nicola Stubbins

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cynnwys

Language Signpost.....	Error! Bookmark not defined.
Rhagair.....	3
Cyflwyniad.....	5
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Perfformiad.....	6
Cryfderau.....	6
Yr amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod.....	7
Safon Ansawdd 1.....	8
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 1.....	8
Oedolion.....	8
Plant a Theuluoedd.....	11
Safon Ansawdd 2.....	13
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 2.....	13
Oedolion.....	13
Plant a Theuluoedd.....	14
Safon Ansawdd 3.....	16
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 3.....	16
Oedolion.....	16
Plant a Theuluoedd.....	17
Safon Ansawdd 4.....	19
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 4.....	19
Oedolion.....	19
Plant a Theuluoedd.....	20
Safon Ansawdd 5.....	21
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 5.....	21
Oedolion.....	21
Plant a Theuluoedd.....	22
Safon Ansawdd 6.....	23
Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd Tuag at Gyflawni Safon Ansawdd 6.....	23
Oedolion.....	23
Plant a Theuluoedd.....	26
Trefniadau strwythurol, llywodraethu ac atebolrwydd.....	27
Gwaith partneriaeth effeithiol drwy Fyrddau Partneriaeth.....	28
Trefniadau diogelu.....	30
Trin ac ymchwilio i gwynion a sylwadau.....	31
Arolygiadau a gynhaliwyd oherwydd swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.....	32
Atodiad I – Data perfformiad a ddefnyddiwyd i fesur y Safonau Ansawdd.....	33
Mesur Safon Ansawdd 1:.....	33
Mesur Safon Ansawdd 2:.....	34
Mesur Safon Ansawdd 3:.....	34
Mesur Safon Ansawdd 4:.....	35
Mesur Safon Ansawdd 5:.....	35
Mesur Safon Ansawdd 6:.....	36

## Cyflwyniad

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol pob awdurdod lleol yng Nghymru baratoi a chyhoeddi adroddiad am gyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis diwethaf. Diben yr adroddiad blynyddol hwn yw gwerthuso perfformiad yr awdurdod lleol o ran sut mae wedi cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac amlygu unrhyw wersi a ddysgwyd neu welliannau sydd eu hangen. Mae'n rhaid i'r adroddiad hefyd bennu amcanion ar gyfer hybu lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofaluwr sydd angen cymorth, ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i strwythuro i ddangos sut mae Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflawni chwe safon ansawdd y canlyniadau lles sy'n cael eu disgrifio yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (y "Ddeddf"). Mae'r fformat hwn ar gyfer yr adroddiad blynyddol yn ofyniad newydd o dan y Ddeddf, ac mae fframwaith newydd ar gyfer *mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol* sy'n dangos pa ddangosyddion a mesurau perfformiad y dylid eu defnyddio i werthuso ein llwyddiant mewn cysylltiad â phob un o chwe safon ansawdd y canlyniadau lles. Fodd bynnag, mae'r fframwaith perfformiad cenedlaethol hwn ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ond yn berthnasol o 2016/17 ymlaen, ac mae'r adroddiad hwn yn trafod 2015/16. Felly, rydym wedi defnyddio'r wybodaeth fwyaf perthnasol sydd ar gael yn awr i ddangos sut y gwnaethom gyflawni chwe safon ansawdd y canlyniadau lles yn ystod 2015/16.

## Gwerthusiad Cyffredinol o'r Perfformiad

### Cryfderau

1. Gwelwyd gostyngiad unwaith eto yn 2015/16 yn nifer yr oedolion sydd angen gofal preswyl, am na allant fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain. Fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol 2012-17, fe wnaethom gyhoeddi uchelgais i leihau nifer yr oedolion a oedd angen gofal preswyl yn ystod y flwyddyn o 200, o 815 yn 2011/12 i 615 erbyn 2016/17. Ers 2011/12, mae'r ffigur wedi lleihau 137, o 815 i 678. Mae hyn yn dangos ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol at gyflawni un o uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol, ac rydym wedi cynorthwyo llawer mwy o bobl yn llwyddiannus i barhau i fyw mor annibynnol â phosibl am gymaint o amser â phosibl.
2. Fe wnaethom brynu safle strategol allweddol yn Ninbych i'n galluogi i ddatblygu cynllun tai gofal ychwanegol newydd. Mae yna 3 chynllun tai gofal ychwanegol llwyddiannus iawn eisoes yn Sir Ddinbych (yn Rhuthun, y Rhyl a Phrestatyn), a nodwyd datblygiad cynlluniau ychwanegol fel blaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol 2012-17. Bydd y gwaith adeiladu yn dechrau ar y safle yn ystod 2016/17.
3. Rydym wedi gwneud newidiadau i'n prosesau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA) er mwyn mynd i'r afael â'r pryderon a amlygwyd gan AGGCC y llynedd. Ers hynny mae ein Tîm Archwilio Mewnol wedi adolygu ein trefniadau ar gyfer PoVA ac wedi datgan bod y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud yn arwain at welliannau yn ein dulliau o reoli achosion PoVA. Mae'r adroddiad yn datgan *"Nid yw effaith y newidiadau staffio diweddar wedi'u hymgorffori'n llawn ond roedd ein profion o sampl o achosion atgyfeirio PoVA yn gadarnhaol ar y cyfan, sy'n awgrymu bod y camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGGCC"*. Byddwn yn amlwg yn parhau i ganolbwyntio ar y maes gwaith hwn yn ystod 2016-17 er mwyn sicrhau bod y gwelliannau hyn yn cael eu hymgorffori'n llawn.
4. Mabwysiadwyd ymagwedd Arwyddion o Ddiogelwch er mwyn dadansoddi risgiau mewn cynadleddau amddiffyn plant. Mae'r gwerthusiadau o effaith hyn, yn cynnwys y rhai gan ddefnyddwyr gwasanaeth, yn awgrymu bod yr ymagwedd yn helpu i egluro pryderon a chryfderau ar gyfer seilio cynlluniau amddiffyn effeithiol, a chyflawni canlyniadau gwell i deuluoedd â phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae'n syml am ei bod yn nodi risgiau, cryfderau, meysydd annelwig a ffactorau cymhlethu ac mae plant a'u teuluoedd yn cwblhau'r dadansoddiad er mwyn iddynt wybod beth sy'n cael ei drin a'i drafod. Mae'r ymagwedd yn cydfynd â'r diwylliant newydd o gydweithio ar draws asiantaethau partner a defnyddwyr gwasanaeth.
5. Mae'r adran wedi croesawu'r Adolygiadau Ymarfer Plant Estynedig mewn sefyllfaoedd pan fydd plentyn sy'n hysbys i'r adran yn marw neu'n cael ei anafu'n ddifrifol, ac ystyrir bod camdriniaeth neu esgeulustod wedi bod yn rhan o hyn. Mae'n edrych ar y gwersi sy'n gallu helpu i atal digwyddiadau tebyg rhag digwydd yn y dyfodol. Rydym wedi ymdrin â dau achos ac wedi trefnu digwyddiadau dysgu er mwyn i'r staff allu myfyrio a gwella arfer.

6. Rydym wedi cyfrannu at y gweithgarwch amddiffyn corfforaethol er mwyn sicrhau bod y cyngor cyfan a'i bartneriaid sy'n darparu gwasanaethau wedi'u comisiynu, yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau, adrodd am broblemau a chydymffurfio ag arferion recriwtio mwy diogel.
7. Mae creu canlyniadau da i blant ac oedolion agored i niwed yn ddibynnol ar staff profiadol, sydd wedi'u hyfforddi a'u cefnogi'n dda. Felly, rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein staff, a chynnig datblygiad gyrfa, hyfforddiant a mentora iddynt. Am nad ydym bellach yn ddibynnol ar staff asiantaeth, mae ansawdd y ddarpariaeth gwaith cymdeithasol yn parhau i fod yn sefydlog.

### Yr amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod

1. Byddwn yn parhau i weithredu ac ymgorffori gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
2. Byddwn yn cwblhau ein hadolygiad presennol o'r gwasanaethau gofal oedolion mewnol ac yn gweithredu unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ar ddyfodol y gwasanaethau hynny.
3. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych.
4. Byddwn yn cynnal arolwg pellach o'n prosesau PoVA a gweithrediad ein Tîm Amddiffyn Oedolion newydd, er mwyn sicrhau bod y pryderon a fynegwyd gan AGGCC yn adroddiad blynyddol y llynedd wedi'u datrys yn llawn.
5. Byddwn yn parhau i ymgorffori uniad y Gwasanaethau Addysg a Phlant er mwyn sicrhau darpariaeth symlach a buddiannau gwell i blant a phobl ifanc.
6. Byddwn yn parhau i amddiffyn plant agored i niwed rhag niwed sylweddol.
7. Byddwn yn parhau i weithio gyda theuluoedd agored i niwed er mwyn rhwystro anawsterau rhag gwaethygu a lleihau'r risg o deuluoedd yn chwalu.
8. Byddwn yn parhau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael profiadau cadarnhaol mewn lleoliadau gyda theuluoedd parhaol, sefydlog, diogel a chariadus, sy'n eu hybu a'u hannog i gyflawni eu potensial a throsglwyddo'n ddidrafferth i fywyd fel oedolion.
9. Byddwn yn parhau i sicrhau bod plant ag anghenion ychwanegol cymhleth yn cael nifer o gyfleoedd gwahanol i gyflawni eu potensial a chynhwysiant cymdeithasol o fewn eu teulu.

## Safon Ansawdd 1

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles penodol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.

Er mwyn cyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau:

- a) Weithio gyda phartneriaid i sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy er mwyn cynorthwyo pobl i reoli eu lles eu hunain a gwneud penderfyniadau gwybodus.
- b) Gweithio gyda phobl, fel partneriaid, er mwyn atal yr angen am ofal a chymorth a threfnu gwasanaethau gyda phartneriaid eraill mewn ffordd sy'n atal neu'n oedi angen pobl am ofal a chymorth.
- c) Gweithio gyda phobl fel partneriaid i gynnal asesiad o ganlyniadau lles personol mewn ffordd amserol.
- d) Sicrhau bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol unigolyn a chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn ac egwyddorion y CU ar gyfer pobl hŷn a chonfensiwn y CU ar hawliau pobl anabl.
- e) Trin pobl gydag urddas a pharch.
- f) Sicrhau bod gan bobl reolaeth dros gynllunio a darparu eu gofal.
- g) Trefnu eiriolwr annibynnol i hwyluso cyfranogiad unigolyn pan fydd ond yn bosibl i'r unigolyn hwnnw oresgyn y rhwystr(au) at gyfranogi'n llawn yn y broses o benderfynu, adolygu a chyflawni angen, drwy gymorth eiriolwr.
- h) Sefydlu trefniadau addas ar gyfer asesu a phenderfynu ar angen a chymhwyster.
- i) Sicrhau bod gan bobl sydd â chynllun gofal a chymorth enw cyswllt sy'n rhannu gwybodaeth berthnasol gyda phartneriaid er mwyn sicrhau y trosglwyddir gofal a chymorth ar draws y gwasanaethau yn ddidrafferth.
- j) Sicrhau bod effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl yn cael ei mesur, yn ogystal â chyflawni canlyniadau personol.
- k) Gweithio gyda phobl broffesiynol eraill, yn cynnwys darparwyr, i hwyluso ac arwain cynllun gofal a chymorth amlddisgyblaeth.
- l) Sefydlu trefniadau addas i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r trefniadau talu am ofal a chodi taliadau.

## Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 1

### Oedolion

Mae gennym Bwynt Mynediad Sengl sefydledig ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau iechyd cymunedol, a dyma sut yr ydym yn cyflawni ein dyletswydd i sicrhau bod gan bobl fynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth clir a dealladwy er mwyn helpu pobl i reoli eu lles a gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae ein staff yn y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr



â'u cydweithwyr yn y gwasanaethau iechyd a'r 3ydd sector i ddarparu gwasanaeth dros y ffôn yn bennaf i bobl sy'n pryderu am eu lles, neu sy'n pryderu am ffrind neu aelod o'r teulu. Mae gweithredwyr y Pwynt Mynediad yn gallu cael sgwrs anffurfiol gyda'r galwr i ganfod beth "sy'n bwysig iddyn nhw", cyn darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth priodol. Os bydd angen, gall y Pwynt Mynediad gyfeirio pobl i gael sgwrs fwy manwl gyda'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ffurfiol.

Ein nod yw y bydd angen atgyfeirio llai o bobl at y gwasanaethau ffurfiol oherwydd y byddwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth gwell iddynt ar gam cynharach, ac a fydd yn dileu'r angen am gymorth gan wasanaethau ffurfiol. Cyfran y bobl nad oeddent yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffurfiol gan y pwynt Mynediad Sengl yn ystod 2015/16 oedd 35%. Roedd cyfran cyfanswm y cysylltiadau i'r Pwynt Mynediad Sengl na wnaethant arwain at atgyfeiriad i'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffurfiol yn 30.9%. Dim ond yn ystod 2015-16 y gwnaethom ddechrau casglu'r wybodaeth hon, felly ni allwn gymharu'r ffigurau hyn nes y byddwn wedi casglu data ar gyfer blwyddyn arall.

Rydym hefyd wedi sefydlu Pwyntiau Siarad yn ein trefi a'n hardaloedd preswyl mwy yn Sir Ddinbych, er mwyn rhoi cyfle i breswylwyr alw heibio a chael sgwrs gyda rhywun am eu lles. Unwaith eto, mae'r Pwyntiau Siarad yn fenter ar y cyd gyda'r gwasanaethau iechyd a chydweithwyr yn y 3ydd Sector, ac maent yn canolbwyntio ar helpu pobl i reoli eu lles; parhau i fod yn annibynnol; ac atal neu osgoi eu hangen am ofal a chymorth. Gall y Pwynt Mynediad Sengl drefnu hefyd i rywun gael apwyntiad yn y Pwynt Siarad yn eu cymuned os na fydd yn bosibl datrys y mater dros y ffôn.

### **Astudiaeth Achos: Elsie a Bill yn eu Pwynt Siarad Lleol**

*Roedd Elsie a Bill wedi mynd i'r llyfrgell i dalu bil. Tra'r oedd Bill yn aros am Elsie, gwelodd yr ardal Pwynt Siarad. Aeth draw i weld beth oedd yn digwydd a chafodd sgwrs fer gyda gweithiwr o Bwynt Mynediad Sengl Sir Ddinbych. Esboniodd Bill bod ei landlord wedi awgrymu bod angen cyngor gan y Gwasanaethau Cymdeithasol arno ef a'i bartner. Ymunodd Elsie â Bill a pharhaodd y sgwrs gydag Ymarferydd Gofal Cymdeithasol. Mae Elsie a Bill yn byw mewn tŷ unllawr y maent yn ei rentu gan landlord preifat. Maent wrth eu bodd yn eu cartref, cartref maent yn ei rannu gyda'u cŵn, ac maent yn gwybod ei fod yn drefniant rhentu hirdymor. Mae'r ddau yn eu 70au ac mae ganddynt broblemau symudedd, yn wir mae'r ddau wedi cael llawdriniaethau ar eu pengliniau. Dywedodd y ddau fod rhai rhannau o'u cartref yn anhygyrch, yn benodol y gris mawr i'r gawod. Nid yw hyn yn ddelfrydol a dywedodd y ddau ei bod yn bwysig eu bod yn gallu 'ymolchi'n iawn'. Bod yn annibynnol yn eu cartref eu hunain sy'n bwysig iawn iddynt.*

*Fe sgwrsiodd y gweithiwr gydag Elsie a Bill am yr opsiynau y gallant eu hystyried i wella mynediad a diogelwch. Awgrymwyd gris addas er mwyn cael mynediad i'r gawod, a rhoddwyd gwybodaeth iddynt am y siopau lleol lle gallai Elsie a Bill brynu un. Awgrymwyd Gofal a Thrwsio ar gyfer canllawiau cydio a pholyn o'r llawr i'r nenfwd, a rhannwyd gwybodaeth am grantiau bychain. Dywedodd Elsie a Bill eu bod eisiau i rywun o'r gwasanaethau cymdeithasol ymweld â'u cartref i edrych ar y gawod, ond roeddent yn derbyn y byddai hyn yn golygu mynd ar restr aros. Gofynnodd y gweithiwr i Elsie a Bill a oeddent yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol, a dywedodd y ddau eu bod, oherwydd bod Bill yn gyn-filwr. Fis yn ddiweddarach, gwelodd Elsie y*

*gweithiwr yn y siop drin gwallt leol. Soniodd Elsie wrth y cwsmeriaid eraill a'r person trin gwallt am y gwasanaeth da a gafodd. O ganlyniad, cynigiodd y person trin gwallt i hybu'r Pwynt Siarad gyda'r cwsmeriaid eraill a gofynnodd am daflenni i'w dosbarthu.*

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rydym hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn ymgysylltu gyda phobl pan fyddant yn cysylltu â ni. Rydym yn gweithio gyda phobl fel partneriaid er mwyn sefydlu “beth sy'n bwysig iddyn nhw” yn hytrach na “beth sy'n bod arnynt”. Mae'r mwyafrif o'n staff gofal cymdeithasol oedolion bellach wedi'u hyfforddi ar sut i gael y sgysiau gwahanol hyn, sy'n ceisio nodi'r canlyniadau lles personol sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw. Y cam nesaf yn y broses yw gweithio gyda'r unigolyn i nodi'r asedau sydd eisoes ar gael iddynt gyflawni eu canlyniadau. Bydd hyn yn cynnwys ffrindiau a theulu yn ogystal â gwasanaethau cyffredinol ac asedau sy'n bodoli yn y gymuned leol. Dim ond pan fydd yn amlwg nad yw'r unigolyn yn gallu cyflawni'r canlyniadau hynny heb gymorth gan yr awdurdod lleol y byddwn yn dechrau trafod gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Rydym yn gweithio hefyd i ddatblygu proses lle bydd angen cymorth ar unrhyw un gan y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn cael “Cyllideb Gymorth” a fydd yn eu galluogi i gael rheolaeth dros gynllunio a darparu eu gofal. Fodd bynnag, mae'r gwaith hwn ar fynd, ac rydym bellach yn gweithio gyda darparwyr y sector annibynnol i ddatblygu proses ar gyfer rhoi mwy o hyblygrwydd i ddinasyddion a darparwyr ar sut a phryd y mae gofal yn cael ei ddarparu.

Yn nhermau rhywfaint o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar gefnogi oedolion gydag anableddau cymhleth, mae'r prosiect cefnogi cynnydd amser cyfyngedig (a gafaelwyd drwy fenter gymdeithasol leol) yn nodi o'r cychwyn cyntaf, y canlyniadau i'w cyflawni a'r amserlenni ar gyfer eu cyflawni. Mesurir llwyddiant y prosiect mewn perthynas â chyflawniad canlyniadau personol pob unigolyn sy'n cael eu hatgyfeirio. Mae hyn hefyd yn wir yn achos y Ganolfan Sgiliau Coetir, sy'n Fenter Gymdeithasol ddielw, y mae'r gymuned yn berchen arni, sy'n cynnal nifer o gyrsiau gwahanol ar greffttau traddodiadol, cyrsiau byw yn y gwyllt a chysiau i grwpiau ieuencid a chymunedol ym Modfari. Mae gan y cyngor gontract gyda'r Ganolfan i ddarparu gwasanaethau i oedolion ag anableddau dysgu. Bu'r ddau brosiect yn llwyddiannus iawn yn ystod 2015/16 yn nhermau'r canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer pobl ar ddatblygu eu sgiliau a chynyddu eu hannibyniaeth.

Mae gennym broses sefydledig ar gyfer casglu data gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion, ac rydym yn defnyddio'r data hwn i wella gwasanaethau a hysbysu ein prosesau sicrhau ansawdd. Mae nifer o'r cwestiynau sy'n cael eu holi yn ein holiaduron presennol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn berthnasol i Safon Ansawdd 1, a pharhaodd yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau hyn i fod yn gadarnhaol iawn yn ystod 2015/16, gyda:

- 98% (432 o 442) yn dweud eu bod wedi'u trin gydag urddas a pharch<sup>1</sup>
- 95% (355 o 372) yn dweud eu bod wedi cael cyfle i esbonio eu problemau a'u safbwyntiau ar eu sefyllfa yn ystod eu hasesiad. Er bod hyn ychydig yn is na'r 98% yn 2014/15, rydym yn credu bod 95% yn parhau i gynrychioli perfformiad gwych.

<sup>1</sup> Er bod 98% yn lefel foddhad uchel iawn, nid oedd 2% (neu 10 o bobl) o'r farneu bod wedi'u trin gydag urddas a pharch. Mae'n peri pryder i ni os bydd unrhyw un yn teimlo na chawsant eu trin gydag urddas a pharch, ac rydym bob amser yn ceisio cysylltu ag unrhyw un a roddodd ymateb negyddol ac wedi nodi eu bod yn barod i drafod eu hatebion. Rydym hefyd yn gofyn a ydynt yn fodlon i ni rannu eu sylwadau gyda'r tîm perthnasol er mwyn i ni allu dysgu o'r adborth. Fodd bynnag, nid oedd rhai pobl am i ni gysylltu â hwy.

- 97% (437 o 452) yn dweud bod y sawl a ymwelodd â hwy wedi gwranddo ar eu pryderon.
- 98% (356 o 365) yn dweud eu bod yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaethau gofal a chymorth a gawsant gennym.
- 98% (2,227 o 2,270) o'r defnyddwyr gwasanaeth presennol hefyd yn datgan eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth maent yn ei gael.
- 98% o'r defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion (2,237 o 2,277) yn datgan eu bod yn fodlon â'r ffordd yr oedd y gwasanaethau yr oeddent yn eu cael yn cyflawni eu hanghenion.
- 80% o bobl yn dweud bod y wybodaeth am gymorth neu wasanaethau yn hawdd iawn neu'n gymharol hawdd i'w chanfod.
- 76 o bobl yn darparu adborth hefyd am ddefnyddioldeb y wybodaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn ac yn dangos pa mor ddefnyddiol a buddiol oedd y wybodaeth.

*“Roeddwn wedi cael cymorth yn y gorffennol ac fe wnes i ffonio'r rhif ffôn a chefais gymorth bron ar unwaith. Teimlais cyn hynny y byddai'n rhaid i mi symud o fy nghartref, ond mae'r cymorth a gefais wedi fy ngalluogi i aros yn fy nghartref fy hun.” (Defnyddiwr Gwasanaeth).*

## Plant a Theuluoedd

Ers sefydlu Porth i Blant a Theuluoedd y llynedd, rydym wedi datblygu'r cynnig hwn er mwyn adeiladu gallu i gyfeirio plant a'u teuluoedd at wasanaethau ataliol os gellir darparu'r cymorth gorau i'w canlyniadau lles heb fod angen ymyrraeth gan y gwasanaethau cymdeithasol ffurfiol. Rydym wedi adeiladu ar ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac rydym yn cael sgysiau gyda dinasyddion yn ystod ein cyswllt cyntaf gyda hwy i sefydlu beth sy'n bwysig iddyn nhw, pa ganlyniadau lles maent yn gobeithio eu cyflawni, a pha gymorth maen nhw'n ei gael o fewn eu rhwydwaith cymdeithasol a'u teulu a'r gymuned ehangach i'w helpu i gyflawni canlyniadau lles. Mae hyn yn cael ei ategu gan feddalwedd newydd, a ddatblygwyd o'r Pwynt Mynediad Sengl i Oedolion, a phroses newydd ar gyfer delio ag atgyfeiriadau ac uwchgyfeirio materion pan fydd angen cynllun gofal a chymorth ar blentyn neu gamau amddiffyn plentyn.

Mae ein hymgysylltiad gyda phartneriaid yn y trydydd sector yn cynyddu, ac rydym wedi bod yn annog ein partneriaid yn rhagweithiol i fabwysiadu DEWIS fel offer ar gyfer esbonio gwasanaethau i ddinasyddion. Rydym wedi gweithio hefyd gyda chydweithwyr yn y cyngor a phartneriaid allanol i hybu chwarae cynhwysol a chyfleoedd hamdden i blant ag anghenion ychwanegol. Mae hyn wedi golygu cyflwyno ein pecyn offer hunanasesu i leoliadau ar hyd a lled y sir a neilltuo potyn grant bychan ar gyfer offer a mân welliannau i leoliadau.

Mae ein hymgysylltiad gyda'r Heddlu yn datblygu hefyd. Rydym wedi cyflwyno Hwb Amddiffyn Aml-Asiantaeth ar sail beilot ac rydym bellach yn trafod gydag uwch swyddogion yr heddlu ffyrdd o ddatblygu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar draws asiantaethau ac ailgynllunio ffurflenni sy'n cael eu defnyddio gan yr Heddlu er mwyn datblygu dull “beth sy'n bwysig”.

Cafwyd presenoldeb llawn yn yr hyfforddiant craidd ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac rydym wedi hyrwyddo'r gwerthoedd a'r egwyddorion yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol cyrsiau hyfforddi Rhan 2 a Rhannau 3 a 4. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu drwy ein prosiect parhaus "Llais y Plentyn" a rôl Swyddogion Arolygu Annibynnol sy'n cefnogi a gwella ein sgysiau sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Gwnaed gwaith sylweddol i'n prosiect 'casglu barn plant, pobl ifanc a theuluoedd'. Cafodd ei sefydlu i edrych ar sut i wella'r broses o ymgysylltu â phlant, pobl ifanc a theuluoedd wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau a sut y gallwn wella ein prosesau ar gyfer casglu, gwranddo ar ac ymateb i'w lleisiau. Bydd plant, pobl ifanc a theuluoedd yn cyfranogi'n weithredol yn y prosiect hwn a bydd cynnydd yn y defnydd o dechnoleg symudol a'r cyfryngau cymdeithasol yn ein hymagwedd at ymgysylltu a chynnwys. Mae'r prosiect hwn wedi'i gysylltu hefyd i grŵp gorchwyl a sefydlwyd gan Grŵp Darparu Gwasanaethau Lleol y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant sy'n edrych i atgyfnerthu lleisiau plant a phobl ifanc mewn prosesau a gweithgareddau diogelu. Bydd cynllun peilot y Fframwaith Canlyniadau yn cyd-fynd yn dda â hyn o ran cynnal sgwrs wahanol gyda phlant a theuluoedd, sy'n canolbwyntio ar nodi a chyflawni canlyniadau personol.

Hyd yma mae'r prosiect wedi creu tudalen Facebook newydd ar gyfer y Gwasanaethau Plant, wedi ymchwilio i arfer yn y maes hwn ac mae'n datblygu dulliau posibl ac arloesol o gyfathrebu ac ymgysylltu. Rydym hefyd wedi ymgynghori gyda'n budd-ddeiliaid allweddol i ddeall pa ddulliau cyfathrebu y maent hwy'n eu defnyddio a nodi'r rhwystrau at ymgysylltiad. Mae cynnyrch newydd eraill wedi'u lansio yn cynnwys gwybodaeth i blant am brosesau ac adolygu amddiffyn plant. Mae'r cynlluniau yn y dyfodol yn cynnwys creu cyfrif Twitter ar gyfer y Gwasanaeth, ystyried manteision creu grŵp caeedig ar Facebook ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; adolygu'r broses y mae plant a phobl ifanc yn cyfranogi yn eu hadolygiadau derbyn gofal; y defnydd o blogiau; fideos briffio, recordiadau sain a phodlediadau.

Mae'n bwysig bod gennym drefniadau addas ar waith ar gyfer asesu a phenderfynu ar angen a chymhwyster, ac mae hyn yn cynnwys gallu cwblhau asesiadau o fewn amserlenni statudol. Cwblhawyd 91.1% (451 o 495) o asesiadau cychwynnol ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith yn ystod 2015/16. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau asesiadau cychwynnol a gymerodd fwy na saith niwrnod gwaith i'w cwblhau oedd 16.5 diwrnod yn ystod 2015/16. Roedd gwaith craffu ar yr asesiadau hynny nas cwblhawyd o fewn yr amserlen wedi nodi bod oedi fel arfer oherwydd argaeledd teuluoedd yn dilyn dyrannu'r asesiad ar system wybodaeth y cleient.

Canran yr asesiadau craidd oedd eu hangen ar gyfer plant ac a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith oedd 97% (96 o 99) yn ystod 2015/16. Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau craidd hynny a gymerodd fwy na 35 diwrnod, oedd 69.3 diwrnod yn ystod 2015/16. Er mai dim ond ychydig o'r asesiadau a gwblhawyd y tu allan i'r amserlen, rydym wedi craffu ar y rhain ac wedi canfod bod oedi wedi digwydd oherwydd natur gymhleth yr asesiadau gofynnol. Rydym yn credu'n gryf bod ansawdd asesiadau yn hollbwysig, ac os bydd hyn yn golygu bod angen mwy o amser i'w cwblhau, yna byddwn yn trafod ac yn cytuno ar hyn gydag arweinydd arfer y gweithiwr cymdeithasol.

## Safon Ansawdd 2

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a gofawyr sydd angen cymorth a phartneriaid perthnasol i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl.

I gyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdodau lleol:

- a) Ddatblygu'r dulliau o hybu a chynorthwyo pobl i gynnal ffordd o fyw iach gyda phartneriaid a phobl.
- b) Cynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau sy'n eu galluogi i gynnal lefel dda o iechyd meddwl a lles emosiynol.
- c) Annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain, bod yn actif ac elwa ar ofal a chymorth ataliol, proactif.

## Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 2

### Oedolion

Mae'r angen i weithio gyda phobl i helpu i ddiogelu a hybu eu hiechyd corfforol a meddyliol a'u lles emosiynol yn elfen ganolog o'r sgwrs "beth sy'n bwysig" yr ydym yn ei chael gyda phobl sy'n cysylltu â ni. Wrth wneud hyn, rydym yn credu y gallwn ddileu, lleihau neu oedi'r angen i bobl fod angen gofal a chymorth ffurfiol gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac y gall pobl barhau i fod mor annibynnol â phosibl am gymaint o amser â phosibl. Fodd bynnag, mae hefyd yn hollbwysig ein bod yn gallu darparu cymorth amserol a phriodol pan fydd angen gofal a chymorth ffurfiol gan y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn galluogi pobl i fyw bywydau annibynnol a boddhaus yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Rydym yn ffyddiog y bydd hyn yn ein galluogi i leihau'r nifer o bobl hŷn yn Sir Ddinbych sydd angen gofal preswyl.

Ystyrir yn gyffredinol bod gormod o bobl hŷn yn byw mewn cartrefi gofal preswyl yng Nghymru, ac yn draddodiadol mae Sir Ddinbych wedi gweld cyfran fwy o'i bobl hŷn yn byw mewn cartref gofal preswyl, o gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae ymchwil cenedlaethol yn dangos bod canlyniadau i bobl yn well pan fyddant yn derbyn cymorth i fyw'n fwy annibynnol, naill ai yn eu cartref eu hunain, neu drwy ddarparu dewisiadau eraill i ofal preswyl safonol, er enghraifft Tai Gofal Ychwanegol. Rydym wedi gweithio'n galed yn y blynyddoedd diwethaf i helpu pobl i barhau i fod mor annibynnol â phosibl am gymaint o amser â phosibl, a lleihau nifer y bobl sydd angen cymorth mewn cartrefi gofal preswyl. Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid hefyd i ddatblygu tri chynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych, a dechreuodd gwaith i ddatblygu cynlluniau ychwanegol yn ystod 2016/17, yn cynnwys adeiladu cynllun 51 rhandy newydd yn Ninbych.

Mae dau ddangosydd sy'n mesur nifer yr oedolion sydd angen cymorth mewn cartref gofal preswyl. Mae un yn mesur nifer y bobl sy'n derbyn cymorth gan y cyngor i fyw mewn cartref gofal preswyl ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn. Mae'r llall yn mesur nifer y bobl sy'n derbyn cymorth gan y cyngor i fyw mewn cartref gofal preswyl ar ddiwrnod cyfrifiad (31 Mawrth). Mae'r ddau ddangosydd yn

dangos rhywbeth defnyddiol i ni, ac mae'r ddau yn dangos bod yr angen am ofal preswyl yn Sir Ddinbych wedi lleihau'n sylweddol ers 2011/12 a bod yr angen hwn yn parhau i leihau bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2016 (h.y. dyddiad y cyfrifiad), canran yr oedolion a oedd angen gofal preswyl am na allant fyw'n annibynnol oedd 0.63% (473 o bobl). Mae hyn yn ostyngiad o 0.66% (499 o bobl) ar 31 Mawrth 2015. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae nifer yr oedolion sydd angen gofal preswyl wedi lleihau o gyfanswm o 106, o 579 ar 31 Mawrth 2012.

Fel rhan o'n Cynllun Corfforaethol 2012-17, rydym yn cyhoeddi uchelgais i leihau nifer yr oedolion sydd angen gofal preswyl yn ystod y flwyddyn o 200, o 815 yn 2011/12 i 615 erbyn 2016/17. Y ffigur ar gyfer 2015/16 oedd 678, sy'n ostyngiad o 697 ar gyfer 2014/15. Ers 2011/12, mae'r ffigur wedi lleihau 137, o 815 i 678. Mae hyn yn dangos ein llwyddiant yn cynorthwyo pobl i fyw mor annibynnol â phosibl am gymaint o amser â phosibl.

Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr iechyd i sicrhau bod pobl hŷn yng Nghymru yn gallu gadael yr ysbyty cyn gynted ag y byddant yn barod i gael eu rhyddhau. Pan na allant wneud hynny, ac na allwn drefnu'r gofal a'r cymorth sydd ei angen i alluogi pobl i adael yr ysbyty, gelwir hyn yn "oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol". Yn ystod 2015/16, cyfradd yr oedolion sy'n profi oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol oedd 2.62 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu hŷn. Mae hyn yn golygu bod 25 o bobl wedi profi oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn gynydd o 12 o bobl (cyfradd o 1.27) yn ystod 2014/15. Mae'r cynnydd yn bennaf oherwydd anawsterau wrth drefnu pecynnau gofal cartref i helpu pobl i ddychwelyd adref. Yn y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd cynnydd yn y pwysau ar y farchnad gofal cartref, gyda darparwyr yn cael anhawster i recriwtio a chadw staff. Nid yw hyn yn unigryw i Sir Ddinbych, ac mae'r pwysau hwn yn cael ei deimlo ar draws Cymru gyfan. Mae cyfradd o 2.62 fesul 1,000 yn parhau i gymharu'n ffafriol iawn â chanolrif Cymru yn 2014/15 (5.09), ac rydym yn disgwyl y bydd y 2.62 yn parhau i fod un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru pan fydd data cenedlaethol 2015/16 yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

## Plant a Theuluoedd

O ran iechyd a lles plant sy'n derbyn gofal, canran yr asesiadau iechyd a gynhaliwyd yn ystod 2015/16 ar blant sy'n derbyn gofal oedd 79%, sy'n gynydd o 73.5% yn ystod 2014/15. Rydym yn parhau i wella ein harfer, gyda nyrs arbenigol yn cynnal rhywfaint o'r gwaith asesu gyda'r garfan o bobl ifanc nad ydynt yn mynychu apwyntiadau sydd wedi'u trefnu ar eu cyfer, yn cynnwys y gallu i gynnig gwybodaeth iechyd rhyw i unigolion neu mewn grwpiau y cytunwyd arnynt.

Mae ein Nyrs Arbenigol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn parhau i hyrwyddo anghenion iechyd y garfan hon o blant ac mae'n ymdrechu i sefydlu dealltwriaeth gytûn gyda'n cydweithwyr yn Betsi Cadwaladr o bwysigrwydd y gwaith hwn a chasglu a chofnodi gwybodaeth.

Canran y plant sy'n derbyn gofal a gafodd apwyntiad i weld deintydd yn ystod 2015/16 oedd 50.4% (57 o 113 o blant sy'n derbyn gofal). Mae hyn yn cymharu â 59.7% (79 o 312 o blant sy'n derbyn gofal) yn ystod 2014/15. Cafodd ein perfformiad o ran apwyntiadau deintyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ei nodi fel maes sydd angen ei wella gan AGGCC yn eu hadroddiad blynyddol am ein perfformiad yn 2014/15. Rydym wedi parhau i gael anhawster i gofnodi'r wybodaeth hon ac rydym

wedi gofyn i weithwyr cymdeithasol goruchwyliol unigol gasglu'r wybodaeth hon yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth sy'n cael ei chasglu mewn adolygiadau statudol neu'r system wybodaeth i gleientiaid.

Mae ein perthynas gyda'n cydweithwyr yn CAMHS yn parhau i fod yn gryf, gyda grŵp o reolwyr o ymarferwyr yn cwrdd bob mis i drafod achosion a phryderon penodol, i rannu gwybodaeth am themâu cyffredinol a sicrhau cydweithio agos ac ymgynghoriadau prydlon. Mae aelodau'r Gwasanaeth Therapiwtig hefyd yn gweithio un diwrnod yr wythnos gyda'u cydweithwyr yn CAMHS, trefniant gwaith sy'n fuddiol i'r ddwy ochr. Er bod y rhestrau aros yn parhau i fod yn uchel, rydym yn gallu cyflymu rhai achosion cymhleth pan fydd gan y ddwy asiantaeth bryderon sylweddol.

## Safon Ansawdd 3

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau priodol i ddiogelu ac amddiffyn pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth rhag camdriniaeth ac esgeulustod neu unrhyw fath arall o niwed.

Er mwyn cyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- a) Ymateb yn effeithiol i amgylchiadau sy'n newid ac adolygu cyflawniad canlyniadau lles personol yn rheolaidd.
- b) Darparu gofal a chymorth i bobl pan fydd angen cyflawni'r anghenion yr aseswyd sydd eu hangen arnynt er mwyn eu hamddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod, neu'r risg o gamdriniaeth neu esgeulustod neu i amddiffyn plentyn rhag niwed neu risg o niwed.
- c) Datblygu trefniadau addas i bobl sy'n rhoi eu diogelwch hwy neu ddiogelwch eraill mewn risg er mwyn atal camdriniaeth ac esgeulustod.
- d) Cynorthwyo pobl i amddiffyn pobl sy'n bwysig iddynt rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- e) Rheoli risg mewn ffyrdd sy'n grymuso pobl i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu bywyd, sy'n gyson ag anghenion amddiffyn.
- f) Gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ymchwilio i honiadau o gamdriniaeth ac esgeulustod er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag niwed.

## Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 3

### Oedolion

Dyweddodd AGGCC yn eu hadroddiad blynyddol y llynedd bod angen gwelliannau i broses PoVA er mwyn sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn brydlon a chyson. Rhan o'n hymateb i'r mater hwn oedd gwneud newidiadau staffio a chreu Tîm Diogelu newydd. Ers hynny, darparwyd hyfforddiant ychwanegol ar ddiogelu i Reolwyr Arweiniol Penodedig, ac mae rhaglen dreigl o hyfforddiant pellach wedi'i sefydlu. Mae hyfforddiant penodol ar reoli cyfarfodydd strategol wedi'u comisiynu hefyd. Mae swydd newydd Rheolwr Tîm Diogelu wedi'i datblygu i ddarparu cymorth proffesiynol ychwanegol i Reolwyr Arweiniol Penodedig ac rydym hefyd wedi cynyddu'r cymorth gweinyddol ar gyfer y broses PoVA, er mwyn cefnogi'r Rheolwyr Arweiniol Penodedig. Cynhaliwyd Adolygiad gyda Chymheiriaid hefyd yng Nghonwy i sicrhau bod gennym safbwyntiau allanol o'n prosesau, ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy grŵp Cyflawni Diogelu Oedolion Lleol sy'n cynnwys pob partner perthnasol, yn cynnwys y gwasanaethau Iechyd a'r Heddlu.

Mewn ymateb i'r pryder bod angen eglurder pellach o ran trothwy'r cyngor ar gyfer derbyn neu wrthod atgyfeiriadau PoVA, rydym wedi mabwysiadu'r offer trothwy cenedlaethol ar gyfer atgyfeiriadau PoVA sydd wedi'u defnyddio'n llwyddiannus mewn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau am y trothwy ar gyfer ymchwilio. Rydym hefyd wedi adolygu ein prosesau Pwynt Mynediad Sengl er mwyn galluogi proses sgrinio fwy effeithiol a chadarn o atgyfeiriadau PoVA, ac i sicrhau bod gwybodaeth ddigonol ar gael



er mwyn gallu gwneud penderfyniadau amserol o ran a yw'r trothwy ar gyfer atgyfeiriad PoVA wedi'i gyflawni.

Rydym hefyd wedi gwahodd ein Tîm Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad o'n prosesau PoVA i werthuso a yw'r newidiadau yn arwain at welliannau. Yn seiliedig ar ei adolygiad, rhoddodd y Tîm Archwilio Mewnol sgôr sicrwydd gyffredinol 'Ganolig', sy'n golygu bod rhai risgiau wedi'u nodi, ond ei bod yn bosibl rheoli'r rhain ar lefel gwasanaeth. Y farn Archwilio oedd "Nid yw effaith y newidiadau staffio diweddar wedi'u hymgorffori'n llwyr eto ond roedd ein prawf o samplio achosion PoVA wedi'u hatgyfeirio yn gadarnhaol ar y cyfan, sy'n awgrymu bod y camau gweithredu sydd eisoes wedi'u cyflwyno yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGGCC."

Gwelwyd gwelliant yn ein perfformiad ar ddelio ag atgyfeiriadau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (PoVA) yn ystod 2015/16, gyda'r risg yn cael ei reoli ar gyfer 100% o atgyfeiriadau PoVA a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn galonogol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, oherwydd i'n perfformiad gynyddu i 100% o 98% yn 2014/15, a hefyd oherwydd bod nifer yr atgyfeiriadau PoVA a gwblhawyd wedi cynyddu o 74 yn 2014/15 i 99 yn 2015/16. Mae'r ddwy ffaith hon yn dangos bod ein prosesau PoVA wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hefyd yn bwysig ein bod yn galluogi pobl i deimlo'n ddiogel, oherwydd mae'r syniad o ddiogelwch yn aml yr un mor bwysig i unigolion â diogelwch ei hun. Fel rhan o'n harolygon boddhad presennol o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion, fe wnaethom holi "A yw'r cymorth a drefnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eich helpu i deimlo'n ddiogel yn eich cartref?". Cyfran y defnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion a roddodd ymateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn yn 2015/16 oedd 95% (396 o 416). Mae hyn ychydig yn is na'r 97% (240 o 250) yn 2014/15, er roedd maint y sampl yn 2015/16 yn llawer uwch. Rydym yn aml yn derbyn sylwadau perthnasol gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac aelodau'r teulu/gofalwyr ar y cwestiwn hwn, er enghraifft:

*"Yn fodlon iawn ac yn hoffi'r staff cymorth sy'n ei helpu i deimlo'n ddiogel yn ei chartref ac sydd hefyd yn ei galluogi i fyw yn y gymuned"* (Aelod o Deulu'r Defnyddiwr Gwasanaeth).

## Plant a Theuluoedd

Roedd sefydlu Gwasanaethau Addysg a Phlant newydd yn cynnwys adolygiad o'r strwythur rheoli, a chafodd rolau newydd eu sefydlu gyda chylch gwaith ar draws y ddau ran o'r gwasanaeth. Mae'r Rheolwr Diogelu ac Adolygu bellach yn gweithio'n agos gyda rheolwyr ysgolion i ddatblygu'r ddealltwriaeth o'r ffordd orau i ddiogelu plant a phobl ifanc ym myd addysg.

Mae'r Uned Ddiogelu wedi gwella ac atgyfnerthu perfformiad ar gynnal cynadleddau amddiffyn plant ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn amserlenni clir, ac mae cynnydd graddol yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n eu mynychu. Mae Swyddogion Diogelu ac Adolygu wedi parhau i ehangu'r ystod o offer sy'n cael eu defnyddio i ymgynghori â phlant a phobl ifanc, sy'n cynyddu effaith eu sylwadau ar ganlyniadau.

Canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal, y plant ar y Gofrestr Diogelu Plant a'r plant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol yn 2015/16 oedd 96.3% (893 o 927). Mae hyn yn cynrychioli gwelliant sylweddol o 2014/15, a oedd yn 89.8% (855 o 952).

Mabwysiadwyd dull gweithredu Arwyddion o Ddiogelwch mewn cynadleddau diogelu plant. Mae'r gwerthusiadau o effaith hyn, yn cynnwys y rhai gan ddefnyddwyr gwasanaeth, yn awgrymu bod y dull gweithredu yn helpu i egluro pryderon a chryfderau a ddefnyddir yn sail i gynllunio diogelu effeithiol a chyflawni canlyniadau gwell i deuluoedd a phlant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cyflwynwyd rhaglen archwilio sicrwydd ansawdd gynhwysfawr ar draws y gwasanaethau plant, ac mae hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar ddetholiad ar hap o ffeiliau achosion, a swyddogion adolygu annibynnol yn arsylwi arferion ar y rheng flaen. Cyflwynir adroddiadau chwarterol i'r tîm rheoli ar y cyd, ac mae arweinwyr a rheolwyr arfer yn cymryd rhan yn y rhaglen hon.

Mae'r agenda Adolygiadau Arferion Plant Estynedig wedi hen sefydlu bellach yn yr awdurdod, ac rydym yn cynnal ein hail ddigwyddiad dysgu. Mae hyn, yn ogystal â'r seminarau thematig amser cinio ar gyfer staff rheng flaen, yn helpu i greu diwylliant dysgu lle gall staff adlewyrchu, dysgu a mabwysiadu arfer gorau.

Sefydlwyd rhaglen ddiogelu gorfforaethol, gyda swyddogion arweiniol wedi'u henwebu ar gyfer holl adrannau'r cyngor, a rhaglen dreigl o godi ymwybyddiaeth ar gyfer staff rheng flaen y cyngor am eu dyletswydd i adrodd ynghylch unrhyw bryderon diogelu ac amddiffyn plant. Mae hyfforddiant ar-lein yn cael ei drefnu a'i gyflwyno ar gyfer pob aelod o staff. Mae cydymffurfiaeth ag arferion recriwtio mwy diogel ar waith, ac mae lefelau recriwtio diogel yn cynyddu ar draws pob adran.

Cyflwynodd y gwasanaeth gynllun peilot sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn llwyddiannus, drwy weithio gyda theuluoedd agored i niwed a oedd angen yr hyn sy'n cael ei ystyried bellach yn becynnau gofal a chymorth neu a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd hyn yn cynnwys dull o wrando a negodi "beth sy'n bwysig" gyda theuluoedd, a chreu pecynnau cymorth a oedd yn fwy effeithiol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu ymestyn y dull gweithredu hwn i weithio gyda theuluoedd yn y dyfodol.

## Safon Ansawdd 4

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol annog a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddysgu a datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.

Er mwyn cyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- a) Gynorthwyo pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles personol.
- b) Helpu pobl i ennill y sgiliau a'r cyrhaeddiad addysgol sydd eu hangen arnynt i ymgysylltu mewn pethau sy'n bwysig iddynt hwy.
- c) Annog pobl i fod yn aelodau gweithredol o'u cymunedau a chefnogi ei gilydd i leihau arwahanrwydd cymdeithasol.

### Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 4

#### Oedolion

Mae hyn i gyd yn rhan o'r dull gweithredu newydd o ymgysylltu gyda dinasyddion drwy gael sgwrs "beth sy'n bwysig" i sefydlu pa ganlyniadau lles personol y maent am eu cyflawni. Mae'n golygu helpu pobl i wella ansawdd eu bywydau a'u galluogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Gwyddom fod arwahanrwydd cymdeithasol yn gallu bod yn broblem fawr i bobl hŷn ac felly rydym yn edrych ar ffyrdd o annog pobl i fod yn gymdeithasol weithgar yn eu cymunedau. Un o'r pethau rydym yn ei wneud yw cymryd rhan yn y prosiect DEWIS er mwyn nodi grwpiau sy'n bodoli yn ein cymunedau ac annog y grwpiau hyn i gofrestru ar wefan DEWIS. Yna bydd yn bosibl nodi cyfleoedd cyfranogiad cymunedol a rhyngweithiad cymdeithasol pan fydd pobl yn cysylltu â ni i gael sgwrs "beth sy'n bwysig", neu drwy drafod ffyrdd o gyflawni canlyniadau lles personol gydag un o'n timau gofal cymdeithasol.

Ar ôl i unigolyn dderbyn cymorth i nodi eu canlyniadau lles personol, y cam nesaf yw eu helpu i nodi pa adnoddau sydd ar gael iddynt i'w helpu i gyflawni'r canlyniadau hynny. Bydd hyn yn cynnwys pethau fel ffrindiau a theulu, ond gallwn eu helpu i nodi adnoddau eraill a allai fod ar gael iddynt, megis grwpiau cymunedol neu sefydliadau'r trydydd sector. Gallwn hefyd gyfeirio pobl at sefydliadau eraill os oes angen cyngor arnynt ar bethau fel cyflogaeth neu fudd-daliadau. Os, ar ôl gwerthuso'r holl adnoddau posibl sydd eisoes ar gael iddynt, bydd canlyniadau y bydd ond yn bosibl eu darparu gyda chymorth y gwasanaethau cymdeithasol, yna byddwn yn datblygu cynllun cymorth ac yn darparu cyllideb cymorth i'w galluogi i brynu'r cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi oedolion ag anabledau cymhleth (drwy'r prosiect cefnogi cynnydd amser cyfyngedig a'r gwasanaeth sgiliau coetir) yn berthnasol iawn i'r Safon Ansawdd hon. Mae'r ddau brosiect yn cefnogi ac annog pobl i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt, eu helpu i ennill sgiliau newydd a'u hannog i fod yn aelodau gweithredol o'u cymunedau.

Cafodd nifer o fesurau perfformiad newydd eu sefydlu gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i werthuso eu llwyddiant mewn cysylltiad â'r Safon Ansawdd hon. Mae'r rhan fwyaf o'r mesurau perfformiad hyn yn newydd ar gyfer 2016/17, a bydd y wybodaeth yn cael ei chasglu drwy anfon holiaduron at ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, rydym wedi bod yn casglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd erbyn hyn, ac mae rhywfaint o'r wybodaeth a gasglwyd yn berthnasol i'r Safon Ansawdd hon. Er enghraifft, bob blwyddyn rydym yn cysylltu ag oedolion sy'n derbyn pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol i ofyn iddynt a ydynt yn credu bod y cymorth maent yn ei gael yn gwella ansawdd eu bywyd. Cafwyd ateb cadarnhaol i'r cwestiwn hwn gan 98% o'r ymatebwyr (2198 o 2250) yn ystod 2015/16. Mae hyn yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, a oedd hefyd yn 98% (2649 o 2712).

## Plant a Theuluoedd

Mae plant sy'n derbyn gofal yn aml yn cael anhawster gyda chyrhaeddiad academaidd, sy'n golygu eu bod o dan fwy o anfantais na phlant eraill yn nhermau rhagolygon bywyd yn y dyfodol. Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd (CSI) yng Nghyfnod Allweddol 2 oedd 87.5% yn 2015/16, gostyngiad bach o 88.9% yn 2014/15. Yn 2015/16, roedd un disgybl prif ffrwd na lwyddodd i gyflawni'r CSI am ei fod ar y gofrestr AAA ar Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy. Rhoddwyd cymorth ychwanegol ar waith er mwyn codi ei lefelau ond ni lwyddodd i gyflawni lefel 4 mewn Mathemateg a Saesneg – er bod lefel 4 wedi'i chyflawni mewn Gwyddoniaeth.

Yn 2015/16, y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol gyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal (mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol) oedd 184, o gymharu â 429 yn 2014/15. Fodd bynnag, mae'r garfan ar gyfer y mesur hwn yn fach iawn, sy'n golygu y gellir disgwyl amrywiaethu mawr yn y perfformiad o flwyddyn i flwyddyn. Fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol y llynedd, dim ond 4 o blant oedd yn y garfan hon yn 2014/15, a chyflawnodd pob un ohonynt yn dda iawn. Mae'r sgôr pwynt cyfartalog o 184 yn 2015/16 (yn seiliedig ar garfan o 9 o blant) yn cymharu'n ffafriol i'r 164 yn 2013/14.

Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi un neu fwy o newidiadau ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, am resymau ar wahân i drefniadau trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, o 21.8% yn 2014/15, i 18.6% yn 2015/16. Gostyngodd nifer y plant sy'n profi un neu fwy o newidiadau ysgol hefyd o 22 yn 2014/15 i 19 yn 2015/16. Mae hyn yn dangos bod gwelliant wedi bod o ran sefydlogrwydd addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'n bwysig nodi bod 7 o'r symudiadau ysgol hyn wedi digwydd oherwydd bod y plant yn symud i leoliadau parhaol, yn cynnwys mabwysiadu a lleoliad gyda theulu estynedig y tu allan i'n hardal ni. Hefyd, cafwyd dau symudiad ar ôl i frodyr a chworydd symud tŷ gyda'u gofalwr maeth hirdymor. Mae Cynlluniau Addysg Personol yn parhau i gael eu cynhyrchu o fewn yr amserlenni, gyda pherfformiad o 100% yn y maes hwn.

## Safon Ansawdd 5

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth i ddatblygu a chynnal perthnasau domestig, teulu a phersonol iach.

Er mwyn cyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- a) Weithio mewn partneriaeth gyda phobl i ymchwilio i honiadau o gam-drin ac esgeulustod a gweithredu i sicrhau bod pobl yn cael eu diogelu rhag niwed.
- b) Cynorthwyo pobl i gynnal y perthnasau sy'n bwysig iddyn nhw, yn gyson â'u hanghenion diogelu.
- c) Helpu pobl i adnabod perthnasau nad ydynt yn ddiogel a diogelu eu hunain rhag camdriniaeth ac esgeulustod.
- d) Ystyried safbwyntiau teuluoedd, gofalwyr a pherthnasau personol eraill pobl wrth asesu eu hanghenion gofal a chymorth, os bydd yn briodol.
- e) Darparu lleoliadau gofal a chymorth sefydlog a chyson i bobl.

## Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd at Gyflawni Safon Ansawdd 5

### Oedolion

Mae gofalwyr (sydd yn aml yn perthyn i'r sawl maent yn gofalu amdanynt) yn darparu cymorth hollbwysig i'r bobl a allai fod angen cymorth sylweddol arnynt fel arall gan y gwasanaethau cymdeithasol. Felly, rydym yn cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth i ofalwyr er mwyn eu galluogi i barhau yn eu rôl ofalu. O ran y cymorth a roddir i ofalwyr, cafodd 97.9% o'r gofalwyr sy'n oedolion a aseswyd neu a ail-aseswyd yn ystod 2015/16 wasanaeth yn dilyn hynny (cynnydd o 96.7% yn 2014/15). Mae hyn yn golygu bod 470 o ofalwyr sy'n oedolion wedi cael gwasanaeth yn ystod 2015/16, sy'n gynnydd bach o 466 yn y flwyddyn flaenorol. Yn anffodus, gostyngodd y % o ofalwyr sy'n oedolion a gafodd gynnig i gael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion hwy eu hunain i 90.4% yn ystod 2015/16, o'r 93.7% yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, credwn fod hyn yn fater cofnodi yn bennaf, ac rydym yn hyderus bod pob gofalwr hysbys yn cael cynnig i gael asesiad bob blwyddyn. Rydym bellach wedi gwneud newidiadau i'n systemau cofnodi er mwyn sicrhau ein bod yn gallu dangos yn gliriach yn y dyfodol bod pob gofalwr yn cael cynnig asesiad gofalwr.

Rydym yn anfon ein holiadur gofalwyr 'Dweud eich dweud' at y bobl hynny sydd wedi derbyn asesiad gofalwyr. Fel rhan o'r holiadur hwn, rydym yn gofyn, "yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r cymorth yr ydych chi a'r unigolyn rydych yn gofalu amdano wedi'i gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y 12 mis diwethaf?" Dywedodd 88% o'r ymatebwyr (42 o 48) eu bod yn "fodlon iawn neu'n eithaf bodlon" yn ystod 2015/16.

Fe wnaethom ofyn i'r gofalwyr hefyd, yn ystod y 6 mis diwethaf, a oeddent yn teimlo eu bod "wedi cael cyfle i gyfranogi neu ein bod wedi ymgynghori â hwy mewn trafodaethau am y cymorth i'w ddarparu i'r unigolyn rydych yn gofalu amdano?" Dywedodd 83% o'r ymatebwyr (43 o 52) eu bod "bob amser neu fel arfer yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys neu ein bod wedi ymgynghori â hwy".

Fe wnaethom gysylltu â'r gofalwyr hynny a roddodd unrhyw ymatebion negyddol o fewn eu hymatebion (pan oeddent wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny) er mwyn casglu manylion pellach am y problemau yr oeddent yn eu hwynebu. Yna trosglwyddwyd eu sylwadau i aseswr y gofalwr neu cawsant eu hail-gyfeirio at y Pwynt Mynediad er mwyn cael sgwrs arall.

## Plant a Theuluoedd

Mae lleoliadau sefydlog yn bwysig i blant sy'n derbyn gofal, ac rydym yn gwneud popeth y gallwn i leihau'r nifer o newidiadau. Y llynedd, gwelsom ostyngiad yn y ganran a'r nifer o blant sy'n derbyn gofal a oedd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn, o 9.9% (16 o blant) yn 2014/15, i 8% (14 o blant) yn 2015/16. Rydym yn ymdrechu i gynnal lleoliadau sefydlog i bob plentyn a pherson ifanc, ac yn ceisio lleihau'r nifer o symudiadau maent yn eu profi. Fodd bynnag, nid yw hyn bob amser yn bosibl, a gall newidiadau gael eu gwneud yn aml am resymau cadarnhaol, er enghraifft dychwelyd i'r teulu, mabwysiadu ac yn y blaen. O'r 14 o blant/pobl ifanc sydd wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy, dylid nodi bod y trydydd symudiad i ddau o'r rhain yn lleoliad maeth parhaol, dychwelodd un plentyn at ei rieni (o dan y ddeddfwriaeth Lleoli gyda Rhieni) a chafodd un person ifanc gymorth wedi'i gynllunio i symud i fyw'n annibynnol. Rydym yn monitro lleoliadau yn agos a, pan fydd pryder ynglŷn â symudiadau, mae'r rhain yn cael eu hystyried yn y Panel Ymyrraeth Ddwys er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r sefydlogrwydd mwyaf.

Rydym bob amser yn ceisio gwella ein gweithgarwch recriwtio gofalwyr maeth er mwyn sicrhau adnoddau da a phrosesau cydweddol ac rydym wedi ymgymryd ag ymgyrch hysbysebu rhanbarthol. Mewn prosiect "Buddsoddi i Arbed" rydym wedi rhoi cefnogaeth ariannol i addasiadau ac estyniad i gartrefi gofalwyr maeth pan fydd gan y gofalwyr hyn allu a gwytnwch profedig ar gyfer lleoliadau heriol, er mwyn cynyddu eu capasiti i gynnal lleoliadau.

## Safon Ansawdd 6

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio a chefnogi pobl sydd angen gofal a chymorth a gofaluwr sydd angen cymorth i gyflawni lles economaidd gwell, cael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion.

Er mwyn cyflawni hyn, wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol:

- Gynorthwyo pobl i gymryd rhan fel dinasyddion gweithredol, yn economaidd a chymdeithasol.
- Cynorthwyo pobl i gael mynediad at waith ystyrllon a'r gallu i'w gynnal.
- Cynorthwyo pobl i gael mynediad at gyngor a help ariannol gyda budd-daliadau a grantiau.
- Darparu mynediad at wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn unol â fframwaith Llywodraeth Cymru ar yr Iaith Gymraeg, 'Mwy na Geiriau....' neu mewn ieithoedd eraill pan fydd angen.
- Cynorthwyo pobl i gael mynediad at lety sy'n diwallu eu holl anghenion ac sy'n hwyluso byw yn annibynnol.

### Gwerthusiad Cyffredinol o'r Cynnydd Tuag at Gyflawni Safon Ansawdd 6

#### Oedolion

Un o'r pethau rydym yn ei wneud yw cyfeirio pobl at Ganolfan Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych. Rydym yn eu hariannu i ddarparu gwasanaeth cyngor i drigolion am fudd-daliadau a materion ariannol cysylltiedig.

Mae gennym nifer o fentrau ar waith er mwyn helpu pobl ag anabledd dysgu hirdymor i ddod o hyd i waith. Mae hyn yn cynnwys gwaith llawn amser neu ran amser, neu sesiwn rhagflas 6-8 wythnos hyd yn oed, fel rhan o raglen profiad gwaith. Mae llawer o gyfleoedd hyfforddiant ar gael hefyd yn Sir Ddinbych i bobl ag anabledd dysgu, yn cynnwys cyfleoedd i hyfforddi yn y gweithle.

Gwyddom ei bod yn hollbwysig i bobl allu trafod a derbyn gofal a chymorth yn eu dewis iaith. Gwyddom hefyd bod hyn yn fater pwysicach fyth i bobl sy'n dioddef o gyflyrau sy'n gysylltiedig â dementia, oherwydd mae nifer o bobl yn dychwelyd i siarad eu mamiaith ac yn cael anhawster i gyfathrebu o gwbl oni allant wneud hynny gan ddefnyddio eu dewis iaith. Un o'r cwestiynau yr ydym wedi'i gynnwys yn ein holiaduron 'Dweud eich dweud', sy'n cael ei anfon at ddefnyddwyr gwasanaeth yw: "Yn ystod eich asesiad, ailasesiad neu adolygiad, a wnaethoch chi allu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?" O'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (130), dywedodd 100% eu bod wedi gallu trafod eu problemau yn eu dewis iaith. Er bod hyn yn seiliedig ar nifer fach o ymatebion, mae'r canlyniadau yn gadarnhaol iawn.

Yn ogystal â'r uchod, rydym yn gofyn "Os ydych yn siaradwr Cymraeg, wrth gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych am y tro cyntaf, a wnaethoch chi allu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?" O'r bobl a atebodd y cwestiwn hwn, ymatebodd 84% (69 o 82) ohonynt yn gadarnhaol. Yn

amlwg, mae rhywfaint o le i wella yn y maes hwn, oherwydd byddwn yn disgwyl i bawb gael yr un cyfle i gyfathrebu gyda ni yn eu dewis iaith.

Rydym hefyd yn gofyn, “Os ydych yn siaradwr Cymraeg, a gawsoch chi’r cymorth yn eich dewis iaith gan yr unigolyn/unigolion sy’n darparu’r cymorth i chi yn eich cartref eich hun?” Ymatebodd 83% o bobl yn gadarnhaol i’r cwestiwn hwn yn 2015/16. Er y byddai’n well gennym weld cyfran uwch, mae ychydig yn anoddach i ni ei reoli. Weithiau, ni all asiantaeth gofal cartref warantu y bydd yr un unigolyn/unigolion yn mynd i gartref rhywun i ddarparu gofal a chymorth. Yn achos absenoldebau annisgwyl (oherwydd salwch er enghraifft), efallai y bydd gan y darparwr ddewis o ofalwr nad yw’n siarad Cymraeg neu dim gofalwr o gwbl. Wrth gwrs, bydd pob unigolyn yn dehongli’r cwestiwn yn wahanol, gyda rhai’n ateb “do” os ydynt *fel arfer* yn cael cymorth yn eu dewis iaith, ac eraill yn ateb “do” os ydynt *bob amser* yn cael cymorth yn eu dewis iaith.

Yn nhermau’r bobl a ddywedodd eu bod yn byw yn y cartref cywir iddyn nhw, rydym yn casglu data boddhad ar hyn o bryd gan breswylwyr cartrefi gofal, sy’n parhau i roi sylwadau cadarnhaol am y cartref y maent yn byw ynddo. Dywedodd 100% o’r ymatebion a gafwyd yn 2015/16 eu bod yn credu bod y cartref yn diwallu rhai neu bob un o’u hanghenion. Rydym hefyd yn gofyn cyfres o gwestiynau penodol i ddefnyddwyr gwasanaeth ar y pwynt ail-asesu, ac mae rhai o’r sylwadau a dderbyniwyd yn gysylltiedig â thai addas:

*“Rwy’n falch iawn gyda chanlyniad y gwasanaeth rwyf wedi’i gael. Rwyf mewn cartref newydd sy’n llawer mwy addas ar gyfer fy anghenion i ac anghenion fy nheulu. Rwyf wedi cael cynnig offer ychwanegol hefyd i’r helpu.”* (Defnyddiwr Gwasanaeth)

Mae gennym dîm atebion tai sy’n gweithio gyda phobl a theuluoedd sy’n wynebu digartrefedd er mwyn atal neu leddfau eu sefyllfa. Rydym yn ymroddedig i wella’r math o lety digartrefedd brys a safon y llety hwn sy’n cael ei ddefnyddio yn awr. Mae gan bobl sy’n cyflwyno eu hunain yn ddigartref nifer o anghenion gwahanol, ac mae rhai ohonynt yn agored iawn i niwed ac yn cyflwyno risgiau uchel. Yn aml, ceir cyfranogiad gan y timau lechyd a/neu Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae’n hollbwysig bod trefniadau cydweithio effeithiol ar waith.

Mae llety brys ar gyfer pobl sy’n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn cael ei ddarparu’n bennaf mewn llety gwyliau, gwely a brechwast a gwestai, ond rydym yn awyddus i leihau ein dibyniaeth ar y math hwn o lety, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed sy’n ddigartref. Defnyddir ‘Llety Dros Dro’ er mwyn symud ymlaen o lety ‘brys’ i’r teuluoedd hynny y mae gan y Cyngor ‘ddyletswydd lawn’ iddynt, wrth aros i gael eu hail-gartrefu’n barhaol. Mae’r math hwn o lety yn cael ei ddarparu fel arfer mewn eiddo hunangynhwysol (tai yn bennaf), sy’n cael eu prydlesu gan landlordiaid y sector preifat. Mae’r sawl sydd yn y teulu yn gallu aros yn y llety dros dro nes y bydd dyletswydd y Cyngor iddynt wedi’i chyflawni drwy gynnig tenantiaeth o lety addas.

Rydym yn paratoi strategaeth ddigartrefedd yn awr, yn unol â’r gofynion statudol, a bydd hyn yn darparu dadansoddiad cyfredol i ni o’r math o anghenion a graddau’r anghenion sy’n gysylltiedig â digartrefedd a’r ystod o ddarpariaeth sydd ei angen arnom i fynd i’r afael â hwy.



Mae ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

- Gweithredu strategaeth deiliadaeth gymysg, sy'n cynnig nifer o atebion gwahanol sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni anghenion amrywiol pobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref a hynny mewn ffordd ddiogel.
- Lleihau'r lefel o ddigartrefedd yn y sir drwy weithredu'r ddyletswydd "atal" statudol.
- Gwella dulliau rheoli y ddarpariaeth llety dros dro bresennol er mwyn hwyluso "cam ymlaen" cyflymach i dai parhaol, a lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio mewn llety brys.
- Gweithredu ein Cynllun Gwella Gwasanaeth er mwyn gwella perfformiad ym mhob maes, yn cynnwys atal digartrefedd a rheoli llety dros dro yn effeithiol.
- Cwblhau'r Strategaeth Ddigartrefedd mewn partneriaeth â budd-ddeiliaid allweddol.
- Datblygu a gweithredu protocol ar gyfer cydweithio effeithiol rhwng yr adrannau Atebion Tai, Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd.
- Datblygu dull mwy cydgysylltiedig o Gefnogi Pobl er mwyn atgyfnerthu ein hadnoddau er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd.

Mae'r Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chymorth, sy'n disodli'r gwasanaeth Warden Tai Lloches, yn cael ei ariannu'n llawn gan y Grant Cefnogi Pobl, ac mae'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a bu'n destun Adolygiad Gwasanaeth llawn Cefnogi Pobl ym mis Medi 2015, a gyflwynodd 21 o argymhellion mewn 6 Maes Canlyniad. Mae Cefnogi Pobl wedi penodi Gweithiwr Cyswllt Cyffredinol a fydd yn gweithio gyda Byw'n Annibynnol â Chymorth un diwrnod yr wythnos. Eu rôl yw sicrhau bod Byw'n Annibynnol â Chymorth a gwasanaethau mewnol eraill sy'n cael eu hariannu drwy Cefnogi Pobl, yn cydymffurfio â Chanllawiau Rhaglen Cefnogi Pobl a'u bod yn gweithredu mewn ffordd gynaliadwy, nad yw'n fiwrocraataidd. Mae'r Uwch Swyddog Byw'n Annibynnol â Chymorth wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddog Contract ac Adolygu Cefnogi Pobl a Gweithiwr Cyswllt Cefnogi Pobl, i ddatblygu a gweitherdu cynllun gweithredu.

Cyflwynwyd contract newydd ar gyfer y Gwasanaeth Byw'n Annibynnol â Chymorth, a oedd yn dechrau ym mis Ebrill 2016, a chadarnhawyd cyllid ar gyfer 2016/17. Mae'r setliad llywodraeth leol wedi cael effaith uniongyrchol ar y Gyllideb Cefnogi Pobl (CP) ar draws Cymru gyfan a maint y Grant CP a ddyfarnwyd i Sir Ddinbych. Felly, mae'r gyllideb ar gyfer Byw'n Annibynnol â Chymorth yn 2016/17 yn £500,000, sy'n ostyngiad o £47,962 yn 2015/2016. Mae'r gostyngiad i'r cyllid wedi'i negyddu gyda dilead y swydd Rheolwr Gofal a Chymorth. Y rheolwr tîm Cefnogi Pobl fydd y rheolwr atebol a fydd yn gyfrifol am Byw'n Annibynnol â Chymorth am y 12 mis nesaf.

Mae Cefnogi Pobl yn llif arian Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth tai i bobl agored i niwed sydd mewn perygl o ddigartrefedd yn cynnwys; pobl ifanc, pobl hŷn, pobl sy'n ffoi rhag trais domestig, cyndroseddwr, pobl â phroblemau cyffuriau neu alcohol a phobl ag anabledau corfforol, meddyliol neu anabledau dysgu. Mae cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn ceisio galluogi pobl i ddatblygu a chynnal eu hyder a'u sgiliau i fyw mor annibynnol â phosibl. Yn 2015-16:

- Cafodd dros 2000 o bobl eu cefnogi (ac eithrio darparu larymau).

- Gweithredwyd toriad o 10.4% i'r gyllideb drwy brosiectau ail-fodelu, yn cynnwys arbediad o 18% yn y gyllideb weinyddol.
- Fe wnaethom gyflwyno ffyrdd newydd peilot o gefnogi pobl drwy brosiectau cymunedol a chyllidebau personol.
- Fe wnaethom ddatblygu Pecyn Offer Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Fe wnaethom lansio gwasanaeth cynaliadwy newydd ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd yn Y Rhyl, ac fe wnaethom ennill Gwobr Hybu Annibyniaeth Cymorth Cymru am Weithio mewn Partneriaeth ym mis Rhagfyr 2015.
- Fe wnaethom gomisiynu ymchwil ar rwystrau at ymgysylltiad ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd, yr ystod o wasanaethau digartrefedd sydd ar gael, a gwerth y Prosiect Llwybr Unigol ac Achos Cymhleth.
- Fe wnaethom ennill y wobwr safle yng Ngwobrau Cyfranogiad Cymru TPAS Cymru 2015 am DVD Tai â Chymorth a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyda Cherddoriaeth a Ffilmiau Cymunedol TAPE.
- Cawsom gyllid camddefnyddio sylweddau ar gyfer pecynnau cychwyn tenantiaeth a Phrosiect Adfer Camddefnyddio Sylweddau.

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn ymroddedig i gynorthwyo pobl i gael llety sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i fyw'n annibynnol. Dyma pam y gwnaethom yr ymrwymiad yn ein Cynllun Corfforaethol 2012-17 i hwyluso mwy o ddatblygiadau tai gofal ychwanegol. Mae staff gofal ar y safle 24 awr y dydd mewn tai gofal ychwanegol, fel y maent mewn cartref gofal preswyl, ac felly gall tai gofal ychwanegol gynorthwyo pobl sydd â'r un lefel o anghenion gofal cymdeithasol â phobl mewn cartref gofal preswyl safonol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn dangos bod gan dai gofal ychwanegol lawer mwy o fanteision na chartref gofal. Mae tai gofal ychwanegol yn dueddol o fod yn amgylchedd sy'n galluogi mwy, ac mae pobl yn cael canlyniadau gwell ac yn gallu byw bywydau mwy annibynnol a boddhaus. Fel y trafodwyd yn gynharach, gwnaed cynnydd da yn 2015-16 i ddarparu mwy o ddatblygiadau tai gofal ychwanegol, a bydd gwaith adeiladu yn dechrau yn fuan ar y safle a brynwyd gennym yn Ninbych.

O ran cefnogi oedolion ag anableddau cymhleth, rydym wedi datblygu taenlen anghenion tai sy'n cael ei diweddarau a'i monitro bob mis. Defnyddir y wybodaeth hon i nodi cyfleoedd tai addas, yn cynnwys eiddo gwag yn y ddarpariaeth byw gymunedol yn ogystal ag eiddo newydd. Y llynedd, datblygwyd canllaw tai â chymorth ar gyfer ein staff. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y staff yn gallu adnabod a chefnogi unigolion sy'n symud i'w tai eu hunain, ac fe wnaethom gynorthwyo nifer o bobl wrth iddynt symud o Gartref Gofal i'w cartrefi eu hunain y llynedd.

## Plant a Theuluoedd

Gwelwyd cynnydd yn 2015/16 yn y gyfran o bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y gwyddom eu bod yn ymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed. Ffigur diwedd y flwyddyn ar gyfer 2015/16 oedd 80% (8 o 10 o bobl ifanc), a oedd yn cymharu'n ffafriol gyda 55.6% (5 o 9 o bobl ifanc) y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y garfan ar gyfer y mesur hwn yn fach iawn, felly mae newidiadau bychain i'r niferoedd yn cael effaith fawr ar y canrannau cyffredinol.

Gwelwyd cynnydd hefyd y llynedd yn y ganran o bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y gwyddom eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety brys yn 19 oed. Mae'n galonogol iawn mai'r ffigur ar gyfer y mesuriad perfformiad hwn yn 2015/16 oedd 100% (10 o 10 o bobl ifanc). Unwaith eto, mae hyn yn cymharu'n ffafriol ag 88.9% (8 o 9 o bobl ifanc) yn 2014/15.

Fel rhan o Reoliad 42 Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, yn ystod mis Rhagfyr 2015 a mis Ionawr 2016, anfonwyd holiaduron at Ofalwyr Maeth ac Aelodau'r Panel Maethu er mwyn casglu eu barn ar ansawdd y gofal sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Maethu. Dywedodd y rhan fwyaf o Ofalwyr Maeth eu bod yn fodlon â lefel y cymorth yr oeddent wedi'i dderbyn a bod y rhaglen hyfforddiant wedi bod yn ddefnyddiol i'w galluogi i fod yn fwy hyderus a gwybodus. Dywedodd nifer o Ofalwyr Maethu bod eu Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol yn 'wych'. Dywedodd Aelodau'r Panel bod ansawdd y ddogfennaeth yn uchel yn ogystal ag ansawdd y gofal a oedd yn cael ei gynnig i blant a phobl ifanc. Mae lefel y wybodaeth a'r profiad sydd gan y Staff Maethu am Ofalwyr Maethu yn wych.

Rydym yn gweithio gyda CLILC i ddatblygu Llwybr Ieuenctid er mwyn osgoi defnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed digartref, ac yn wir ar gyfer pobl eraill sy'n gadael gofal a phobl ifanc eraill 18-21 sy'n agored i niwed. Mae cyfyngu, a rhoi'r gorau i ddefnyddio llety gwely a brecwast yn y pen draw ar gyfer pobl ifanc 16/17 oed wedi bod yn fwriad gennym ers cryn amser. Mae ein cydweithwyr yn y gwasanaethau tai a'r Gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal wedi bod yn cydweithio i geisio canfod dewisiadau eraill ond mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd nifer gyfyngedig o leoliadau brys sydd ar gael ar gyfer y grŵp hwn o unigolion.

Mae'n werth nodi bod y protocol sydd gennym gyda'r gwasanaethau tai i gyfweld a chynorthwyo pobl ifanc 16/17 oed sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn gweithio'n dda, gyda'r asiantaethau yn cydweithio i sicrhau bod y math hwn o ddarpariaeth yn ddewis olaf, a bod y bobl ifanc yn cael eu symud ymlaen o fewn yr amserlen leiaf bosibl.

## Trefniadau strwythurol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu mewnol cadarn iawn i gynorthwyo proses effeithiol o reoli'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgorau Craffu gwahanol drwy'r flwyddyn er mwyn galluogi Aelod Etholedig i graffu ar bolisiâu a pherfformiad y gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys adroddiadau i fonitro cynnydd unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen mewn ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGGCC. Mae gennym broses herio perfformiad gwasanaethau sefydledig, lle bydd pennaeth pob gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd megis perfformiad gwasanaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r panel ar gyfer pob cyfarfod herio gwasanaethau yn cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Craffu a'n rheoleiddwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru).

Yn ogystal â'r broses herio gwasanaethau, mae gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn iawn, sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r Uwch Dîm Rheoli; Craffu; a'r Cabinet, a chyflwyno adroddiadau amrywiol i'r pwyllgor craffu yn rheolaidd ar faterion gwasanaeth penodol, er enghraifft Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed.

Ar ddiwedd 2015/16, gweithredodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (sy'n cynnwys gofal cymdeithasol i oedolion) adolygiad o'i uwch dîm rheoli er mwyn creu rhywfaint o gapasiti ychwanegol ar y lefel strategol. Mae hyn yn golygu bod dau Brif Reolwr yn awr (un ar gyfer y gwasanaethau gweithredol ac un ar gyfer y gwasanaethau cymorth) sy'n adrodd i'r Pennaeth Gwasanaeth, gyda'r rheolwyr gwasanaeth yn adrodd i'r ddau Brif Reolwr. Bydd hyn yn creu capasiti uwch i'r Pennaeth Gwasanaeth a'r ddau Brif Reolwr er mwyn gallu canolbwyntio ar faterion strategol.

Ar ddiwedd 2015/16 gwelwom wasanaeth newydd yn cael ei sefydlu o'r enw y Gwasanaethau Addysg a Phlant. Mae'r broses o uno'r Gwasanaethau Addysg a Phlant a Theuluoedd wedi bod ar y gweill drwy gydol 2015/16, ac fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau (a hefyd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol), bûm yn arwain y gwaith hwn er mwyn sicrhau trosglwyddiad didrafferth i'r gwasanaeth newydd.

Roedd sefydlu'r gwasanaeth newydd yn cynnwys adolygu'r strwythur rheoli a sefydlwyd rolau newydd gyda chylch gwaith ar draws dwy ran y gwasanaeth. Sefydlwyd rôl newydd Prif Reolwr Gwasanaethau Plant i ddarparu rhagor o gapasiti i'r Pennaeth Gwasanaeth, yng nghyd-destun y cylch gwaith ehangach. Cafodd hyn ei adlewyrchu gan ddwy rôl Prif Reolwr ym maes Addysg. Mae'r Rheolwr Diogelu ac Adolygu yn gweithio'n agos iawn gyda rheolwyr ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffordd orau o ddiogelu plant a phobl ifanc ym myd addysg. Sefydlwyd rôl newydd rheolwr gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth er mwyn dod â'r elfennau hyn o'r gwasanaethau Addysg a Phlant ynghyd a darparu gwasanaeth holistig, yn cynnwys rheoli'r grantiau Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Yn gyffredinol, mae'r newidiadau hyn wedi creu capasiti pellach i'r Pennaeth Gwasanaeth newydd allu darparu cylch gwaith eang a sylweddol a chanolbwyntio ein ffocws ar weithio ar draws y sefydliad a gyda'r ysgolion er mwyn diogelu, amddiffyn a chynnig cyfleoedd i blant a phobl ifanc.

Cafodd cyflwyniad y gwasanaeth newydd ei ategu gan Brawf Sicrwydd cadarn, yn seiliedig ar y model a ddefnyddiwyd yn Lloegr yn 2012 pan oedd yn orfodol ymuno â'r gwasanaethau Plant ac Addysg a dangos cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae'r Prawf Sicrwydd, a'r cynllun gweithredu a grëwyd yn dilyn hynny, wedi'u hadolygu gydag aelodau Arweiniol y gwasanaethau Addysg a Phlant a thrwy ein proses Graffu ar Lywodraethu corfforaethol a bydd yn cael ei hailadrodd eto ar ôl i'r gwasanaeth newydd fod yn weithredol am 12 mis er mwyn sicrhau diogelwch plant Sir Ddinbych.

## Gwaith partneriaeth effeithiol drwy Fyrddau Partneriaeth

Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hybu cydweithrediad gyda'u partneriaid perthnasol ar gyfer oedolion ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'r ddeddf hefyd yn ei gwneud yn

ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol lunio trefniadau partneriaeth a sefydlu byrddau partneriaeth rhanbarthol gyda'r diben o wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a lles y dinasyddion hefyd. Mae hyn yn golygu bod gofyniad i sefydlu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ym mhob rhanbarth bwrdd iechyd yng Nghymru. Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gorff statudol gyda swyddogaethau sydd wedi'u diffinio gan y Ddeddf ac mewn rheoliadau dilynol gyda grym y gyfraith.

Yng Ngogledd Cymru, rydym wedi bod yn gweithio i weithredu'r bwrdd newydd hwn, ac adeiladu ar y trefniadau partneriaeth da sydd eisoes ar waith yn y rhanbarth, er enghraifft y Gwasanaethau Integredig; Datblygu'r Gweithlu; Byrddau Comisiynu a Diogelu. Mae rhanbarth Gogledd Cymru wedi gweithredu fforwm rhanbarthol sy'n dod â phartneriaid allweddol at ei gilydd o feysydd Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Cynghorau a'r Bwrdd Iechyd yn bennaf) ers nifer o flynyddoedd. Mae'r corff rhanbarthol hwn wedi gweithio gyda Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion y Bwrdd Iechyd i reoli'r grantiau sydd ar gael yn rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru i wella'r prosesau cydweithio rhwng cynghorau, y gwasanaeth iechyd a darparwyr gofal annibynnol. Mae'r Ddeddf bellach wedi trosglwyddo'r gweithgarwch hwn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd, a fydd yn cynnal trosolwg o'r Gronfa Gofal Canolraddol a ffrydiau ariannu rhanbarthol eraill, yn ôl cyfarwyddyd y Gweinidog.

Bydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol newydd hefyd yn cynnal trosolwg o'r broses o hybu gwaith integredig. Cynigir y bydd y gwaith o ddarparu gwaith integredig a chyflwyno cyllidebau cyfun yn cael ei gynnal ar lefel ardal mewn partneriaeth â Chyfarwyddwyr Ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cysgodol bellach wedi'i sefydlu er mwyn gallu gweithio ar gyfch gorchwyl, blaenoriaethau a rhaglen waith dderbyniol y Bwrdd newydd mewn sgwrs ddwy ffordd gydag aelodau cyfansoddol y Bwrdd.

Yng Ngogledd Cymru, cytunwyd y bydd Fforwm Partneriaeth presennol yn gweithredu fel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cysgodol, ac y bydd yn cwrdd yn rheolaidd yn y misoedd nesaf i weithio ar sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cysgodol yr un aelodaeth â'r un a gynigiwyd ar gyfer y Bwrdd ffurfiol, ac sy'n ofyniad yn ôl statud. Cytunwyd hefyd y bydd Cadeirydd y Fforwm Partneriaeth yn cael ei gyfethol dros dro i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn darparu dilyniant, arweinyddiaeth a chynnal cyflymder y broses o sefydlu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Rydym hefyd yn cymryd rhan mewn prosiect gyda'r 5 awdurdod lleol arall yng Ngogledd Cymru a'r bwrdd iechyd lleol i gynnal asesiad o anghenion y boblogaeth ar y cyd, er mwyn nodi anghenion gofal a chymorth, cymorth i ofalwyr a gwasanaethau ataliol a'r amrywiaeth a'r lefel o wasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r anghenion hynny.

Mae Bwrdd Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru wedi'i ail-gyflunio ac mae cynrychiolaeth Rheolwyr Gwasanaeth o'r 6 awdurdod lleol ar y bwrdd, sy'n cael ei gadeirio gan aelod o Benaethiaid Gwasanaeth Gogledd Cymru. Nid yn unig y mae'r Bwrdd yn monitro perfformiad lleol, ond mae hefyd yn meincodi yn erbyn perfformiad consortia eraill ar hyd a lled Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd yn aelodau gweithredol o'r grwpiau sy'n datblygu Gwasanaeth Mabwysiadu Cymru.

## Trefniadau diogelu

Fel y trafodwyd yn y bennod ar Safon Ansawdd 3, yn ei adroddiad blynyddol 2014/15, mynegwyd rhai pryderon gan AGGCC ynglŷn ag amseriad a diffyg cysondeb yn y broses ddiogelu, yn benodol y mater o ddelio gydag atgyfeiriadau Oedolion Agored i Niwed (PoVA). Ers hynny, gwnaed llawer o waith i wella ein perfformiad yn y maes hwn. Mae cyflwyno prosesau diwygiedig y Pwynt Mynediad Sengl wedi galluogi proses sgrinio fwy effeithiol a chadarn o atgyfeiriadau PoVA, gyda gweithredwyr y Pwynt Mynediad Sengl yn sicrhau bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael er mwyn gallu gwneud penderfyniad o ran a yw'r achos yn cyflawni'r trothwy ar gyfer cynnal ymchwiliad. Hefyd, mae Rheolwyr Arweiniol Penodedig wedi cael hyfforddiant diogelu, a chomisiynwyd hyfforddiant penodol er mwyn gwella eu hyder a'u cymhwyster ar gyfer rheoli cyfarfodydd strategaeth. Rydym hefyd wedi creu swydd newydd Rheolwr Tîm Diogelu er mwyn darparu cymorth proffesiynol pellach i'r Rheolwyr Arweiniol Penodedig a gwella'r broses gyfan. Bydd y Tîm Diogelu newydd yn gweithio gyda'i gilydd mewn un swyddfa er mwyn gweithio'n fwy cydgysylltiedig.

Cynhaliwyd Adolygiad Cymheiriaid gyda Chonwy er mwyn sicrhau bod gennym farn allanol o'n prosesau ac mae hyn yn cael ei fonitro drwy'r grŵp Diogelu Oedolion Lleol sy'n cynnwys yr holl bartneriaid perthnasol, yn cynnwys Iechyd a'r Heddlu.

Fe wnaethom wahodd ein Tîm Archwilio Mewnol i gynnal adolygiad hefyd o'n prosesau PoVA er mwyn gwerthuso a yw'r newidiadau yn arwain at welliannau. Yn seiliedig ar ei adolygiad, dywedodd y Tîm Archwilio Mewnol bod gennym sgôr sicrwydd gyffredinol 'Ganolig', sy'n golygu bod rhai risgiau wedi'u nodi, ond ei bod yn bosibl eu rheoli ar lefel gwasanaeth. Y farn yn yr Archwiliad oedd "Nid yw effaith y newidiadau staffio diweddar wedi'u hymgorffori'n llawn eto ond roedd ein prawf o'r sampl o achosion atgyfeirio PoVA yn gyffredinol ar y cyfan, sy'n awgrymu bod y camau gweithredu a weithredwyd yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad AGGCC".

Fel y trafodwyd yn y bennod ar Safon Ansawdd 3, mae sefydlu'r gwasanaeth newydd (sef y Gwasanaethau Addysg a Phlant) wedi galluogi i'r Rheolwr Diogelu ac Adolygu gydwethio'n agosach gyda rheolwyr ysgolion i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffordd orau o ddiogelu plant a phobl ifanc ym myd addysg. Mae'r gwasanaeth wedi gwella ei berfformiad hefyd o ran cynnal cynadleddau diogelu plant ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal o fewn amserlenni priodol, ac mae'r dull Arwyddion o Ddiogelwch ar gyfer dadansoddi risgiau yn helpu i wella canlyniadau i deuluoedd â phlant ar y Gofrestr Diogelu Plant.

## Trin ac ymchwilio i gwynion a sylwadau

Cafwyd llai o gwynion am y gwasanaethau cymdeithasol yn 2015/16 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cafwyd cyfanswm o 21 o gwynion yn 2015/16, o gymharu â 37 yn 2014/15. Arweiniodd y 21 o gwynion at 19 ymchwiliad Cam 1 a 2 ymchwiliad Cam 2.

Ymdriniwyd â phob un o'r 21 o gwynion ac ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen yn 2015/16. Mae hyn yn welliant o 96% yn 2014/15.

Gwelwyd cynnydd bychan yn nifer y cwynion a gynhaliwyd neu a gynhaliwyd yn rhannol y llynedd, o 66% yn 2014/15 i 75% yn 2015/16.

Gwelwyd sawl enghraifft yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ddinasyddion neu eu teuluoedd yn gwrthod penderfyniadau a wnaed gan ddefnyddio ein meini prawf cymhwyster. Ymdriniwyd â'r achosion hyn drwy gynnal ailasesiad i ddechrau. Ym mhob achos gwnaed defnydd cywir o'r meini prawf cymhwyster, fodd bynnag, gall ail asesiad gynnig canlyniad gwahanol neu opsiynau gwahanol i'r dinesydd neu eu teulu. Efallai mai safbwyntiau gwahanol yr ymarferwyr sy'n gyfrifol am hyn, neu os bydd cyflwyniad y dinesydd yn wahanol yn yr ail asesiad.

### **Gwelliannau gwasanaeth/Gwersi a ddysgwyd yn dilyn cwynion:**

Mae'r Canllaw Byw yn y Gymuned ar gyfer Ymarferwyr wedi'i ddiweddarau'n sylweddol yn dilyn cwyn am y broses gydnawsedd/paru ar gyfer tenantiaid presennol a darpar denantiaid. Nodwyd methiannau, a dylai'r ychwanegiadau i'r canllaw helpu i atal digwyddiadau yn y dyfodol.

Dysgwyd gwersi yn nhermau gwella arfer ar gyfer gwirio a chofnodi dogfennau cyfreithiol dinasyddion, megis datganiadau pŵer atwrnai. Mae'r broses gofnodi achosion bellach yn cael ei hadolygu er mwyn ymateb i'r mater hwn.

Mae prosesau ar gyfer Gwasanaeth Offer Cymunedol Sir Ddinbych a Chonwy (CESI) wedi'u gwella er mwyn sicrhau nad yw salwch staff yn effeithio ar archebion arbenigol, yn dilyn cwyn am oedi.

### **Cwynion sy'n cael eu datrys o fewn 24 awr:**

Ni ddylid cofnodi unrhyw gwynion sy'n cael eu datrys erbyn diwedd y diwrnod gwaith canlynol, er boddhad yr achwynnwr, fel cwyn. Yn hytrach, mae cwynion o'r fath yn cael eu cofnodi fel pryderon. Ymdriniwyd â 9 o 30 o gwynion dilys yn y dull hwn yn 2015/16, sy'n lleihau nifer y cwynion y mae angen eu rheoli yn ôl y broses ffurfiol o 30%.

## Arolygiadau a gynhaliwyd oherwydd swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol

Cynhaliwyd nifer o arolygiadau gan AGGCC yn ystod 2015/16, pob un yn ymwneud â gofal cymdeithasol Oedolion. Rhoddir crynodeb isod o'r canfyddiadau, ac unrhyw gamau gweithredu dilynol a gymerwyd i ddatrys unrhyw broblemau.

- **Lleoliad Oedolyn:** Cynhaliwyd arolwg â ffocws ym mis Chwefror 2016 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth. Nid oedd unrhyw faterion cydymffurfiaeth nac argymhellion ac roedd yn adroddiad cadarnhaol iawn.
- **Byw yn y Gymuned:** Cynhaliwyd arolwg â ffocws ym mis Chwefror 2016 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth. Nid oedd unrhyw faterion cydymffurfiaeth nac argymhellion ac roedd yn adroddiad cadarnhaol iawn.
- **Cartref Gofal Awelon:** Cynhaliwyd arolwg â ffocws ym mis Gorffennaf 2015 a chyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Awst 2015. Ni nodwyd unrhyw faterion diffyg cydymffurfiaeth, ac mae'r adroddiad yn cydnabod bod y materion wedi'u datrys. Roedd yr archwiliadau iechyd a Diogelwch o'r gegin yn dda iawn, gan arwain at "Sgôr ar y Drws" o 5 allan o 5.
- **Cartref Gofal Cysgod y Gaer:** Cynhaliwyd arolwg â ffocws ym mis Mawrth 2016, ond nid yw'r adroddiad terfynol wedi'i gymeradwyo na'i gyhoeddi eto. Yn nhermau iechyd a diogelwch, roedd yr archwiliadau o'r gegin yn gadarnhaol iawn, gan arwain at "Sgôr ar y Drws" o 5 allan o 5.



## Atodiad I – Data perfformiad a ddefnyddiwyd i fesur y Safonau Ansawdd

Sefydlwyd cyfres o fesurau perfformiad gan Lywodraeth Cymru i helpu awdurdodau lleol i werthuso eu llwyddiant yn erbyn y chwe Safon Ansawdd. Mae rhai o'r mesurau perfformiad yn newydd ar gyfer 2016/17, felly ni allwn adrodd ein perfformiad yn erbyn pob un ohonynt ar gyfer 2015/16. Fodd bynnag, lle mae hyn yn wir, mae gennym fesurau tebyg yr ydym wedi bod yn eu casglu ers blynnyddoedd, ac rydym wedi cyfeirio at y rhain yn hytrach na'r rhai newydd.

### Mesur Safon Ansawdd 1:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
% o'r defnyddwyr gwasanaeth a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Os ydych wedi chwilio am wybodaeth am gymorth neu wasanaethau yn y flwyddyn ddiwethaf, a oedd yn hawdd neu'n anodd i chi ei chanfod? Gallai hyn fod gan unrhyw sefydliad".	80%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
Pobl yn dweud eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch.	98%	99%
% o'r defnyddwyr gwasanaeth a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn ystod eich asesiad, a gawsoch gyfle i esbonio eich problemau a'ch barn ar eich sefyllfa?".	95%	98%
% o'r defnyddwyr gwasanaeth a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "A oeddech chi o'r farn bod y person a ymwelodd â chi wedi gwrandao ar eich pryderon?".	97%	97%
% o'r defnyddwyr gwasanaeth a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Ar y cyfan, pa mor fodlon ydych chi/oeddech chi gyda'r gwasanaethau gofal a chymorth a gawsoch?".	98%	98%
% o oedolion sy'n cael pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth maent yn ei gael.	98%	98%
% o oedolion sy'n cael pecyn cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r ffordd yr oedd y gwasanaethau a gawsant yn diwallu eu hanghenion.	98%	98%
Y % o bobl nad ydynt yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffurfiol gan y Pwynt Mynediad Sengl (ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth).	35%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
% cyfanswm y cysylltiadau i'r Pwynt Mynediad Sengl (ein gwasanaeth gwybodaeth, cymorth a chyngor) na wnaethant arwain	30.9%	D/G

at atgyfeiriad at y Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffurfiol.		Newydd ar gyfer 2015/16
Nifer yr asesiadau cychwynnol ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn 7 diwrnod gwaith.	91.1%	93.6%
Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau asesiadau cychwynnol i blant a gymerodd fwy na 7 diwrnod gwaith i'w cwblhau.	16.5 diwrnod	13.4 diwrnod
Y % o asesiadau craidd oedd eu hangen ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn 35 diwrnod gwaith.	97%	98.2%
Yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau'r asesiadau craidd hynny oedd eu hangen ar gyfer plant a gymerodd fwy na 35 diwrnod gwaith, yn ystod 2015/16.	69.3 diwrnod	57.3 diwrnod

### Mesur Safon Ansawdd 2:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
Y gyfradd o oedi trosglwyddiadau gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu'n hŷn	2.62	1.27
Y % o'r boblogaeth oedolion a oedd angen gofal preswyl rhywbryd yn ystod y flwyddyn	0.9	0.93
Nifer yr oedolion a oedd angen gofal preswyl rhywbryd yn ystod y flwyddyn	678	697
Nifer yr oedolion mewn gofal preswyl ar 31 <sup>ain</sup> Mawrth	473	499
Y % o blant sy'n derbyn gofal a gawsant apwyntiad deintydd	50.4	59.7
Canran yr asesiadau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yr oedd angen eu cynnal yn 2015/16 a gynhaliwyd	79.7	73.5

### Mesur Safon Ansawdd 3:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
Y % o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "A yw'r cymorth a drefnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eich helpu i deimlo'n ddiogel yn eich cartref?"	95%	97%

Y % o atgyfeiriadau Diogelu Oedolion Agored i Niwed (PoVA) a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi'i rheoli	100%	98.7%
Canran yr adolygiadau o blant sy'n derbyn gofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r plant mewn angen a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol	96.3%	89.8%

#### Mesur Safon Ansawdd 4:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
Y % o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "ydych chi o'r farn bod y cymorth rydych yn ei gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwella ansawdd eich bywyd?"	98%	98%
Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 2	87.5%	88.9%
Canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd yng Nghyfnod Allweddol 3	42.9%	44.4%
Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant sy'n derbyn gofal 16 oed, mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol	184	439
Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid un neu fwy o ysgolion, yn ystod cyfnod o dderbyn gofal, nad oeddent oherwydd trefniadau trosglwyddo, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	18.6%	21.8%
Nifer y plant sy'n profi un neu fwy o newidiadau ysgol yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	19	22

#### Mesur Safon Ansawdd 5:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
Y % o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	8%	9.9%
Y % o ofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r cymorth yr ydych chi a'r unigolyn rydych yn gofalu amdano wedi'i gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y 12 mis diwethaf?"	88%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16

Y % o ofalwyr sy'n oedolion a aseswyd neu a ailaseswyd yn ystod y flwyddyn, a gafodd wasanaeth yn dilyn hynny	97.9%	96.7%
Y % o ofalwyr sy'n oedolion y cynigiwyd asesiad neu adolygiad iddynt o'u hanghenion hwy eu hunain	90.4%	93.7%
Y % o ofalwyr sy'n oedolion a ymatebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn "Yn y chwe mis diwethaf, ydych o'r farn eich bod wedi bod cyfranogi neu yr ymgynghorwyd â chi i'r graddau yr oeddech yn ei ddymuno, mewn trafodaethau am y cymorth a ddarparwyd i'r unigolyn rydych yn gofalu amdano?"	83%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16

### Mesur Safon Ansawdd 6:

Mesur	Data 2015/16	Data 2014/15
"Yn ystod eich asesiad, ailasesiad neu adolygiad, a oeddech chi'n gallu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?"	100%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
"Os ydych yn siaradwr Cymraeg, wrth gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych am y tro cyntaf, a oeddech chi'n gallu trafod eich problemau yn eich dewis iaith?"	84%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
"Os ydych yn siaradwr Cymraeg, a gawsoch chi'r cymorth yn eich dewis iaith gan yr unigolyn/unigolion sy'n darparu'r cymorth i chi yn eich cartref?"	83%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
Y % o drigolion mewn cartrefi gofal a ddywedodd eu bod o'r farn bod y cartref yn cyflawni rhai neu bob un o'u hanghenion	100%	D/G Newydd ar gyfer 2015/16
Y % o bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y gwyddom eu bod yn ymgysylltu mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth yn 19 oed	80%	55.6%
Y ganran o bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y gwyddom eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety brys yn 19 oed	100%	88.9%